# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Tachwedd 2025

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.00 - 09.15

## Sesiwn gyhoeddus

09.15 - 12.10

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.15

## 2 Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

09.15 - 10.45 (Tudalennau 1 - 49)

Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Helen John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru

Robbie Thomas, Pennaeth Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru

Dylan Hughes, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Hannah Starkey, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Crynodeb o'r bil (Saesneg yn unig)

## Egwyl

10.45 - 10.55

## 3 Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 2

10.55 - 11.30 (Tudalennau 50 - 52)

Rebecca Godfrey, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, Awdurdod Refeniw Cymru

Anthony Pritchard, Prif Swyddog Digidol, Awdurdod Refeniw Cymru

Joseph Dooher, Pennaeth Ardoll Ymwelwyr a Chyflawni Cofrestru Cenedlaethol, Awdurdod Refeniw Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff cefndirol Awdurdod Cyllid Cymru

## Egwyl

11.30 - 11.35

## 4 Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 3

11.35 – 12.10

Marc Crothall MBE, Prif Weithredwr, Cynghrair Twristiaeth yr Alban

Fiona Campbell, Prif Weithredwr, Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban

## 5 Papurau i'w nodi

12.10

### 5.1 Diwydiant Dur y DU

(Tudalennau 53 – 54)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Dur Prydain – 10 Hydref 2025 (Saesneg yn unig)

### 5.2 Cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Dur

(Tudalennau 55 – 58)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Masnach Ryngwladol, Senedd Ewrop – 16 Hydref 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Gwladol, yr Adran Fusnes a Masnach, Llywodraeth y DU, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth y DU – 16 Hydref 2025

### 5.3 Sesiwn ar Ddyfodol Dur Cymru – 9 Hydref 2025

(Tudalennau 59 – 73)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Llywodraeth Cymru, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth y DU – 16 Hydref 2025

Llythyr gan Gadeirydd at Brif Swyddog Gweithredol Tata Steel UK – 24 Hydref 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at Undeb Community - 27 Hydref 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at Undeb GMB - 27 Hydref 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Aml-Undeb - 27 Hydref 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at Uno'r Undeb - 27 Hydref 2025

Ymateb gan y Unite Cymru - 28 Hydref 2025 (Saesneg yn unig)

Llythyr o Orsaf Bŵer Hinkley Point C at y Cadeirydd - 17 Hydref 2025 (Saesneg yn unig)

**5.4 Gwahoddiad i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ynghylch y datblygiadau yn niwydiant dur Cymru**

(Tudalennau 74 - 75)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth y DU - 17 Hydref 2025

**5.5 Dyfodol Dur yng Nghymru**

(Tudalennau 76 - 79)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Prif Swyddog Masnachol a'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol - Cymru, Associated British Ports (ABP) - 20 Hydref 2025

Llythyr gan y Cadeirydd at y Prif Swyddog Gweithredol, y Porthladd Rhydd Celtaidd - 20 Hydref 2025

**5.6 Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2025**

(Tudalennau 80 - 81)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 17 Hydref 2025

**5.7 Gwaith dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Hydref 2025 - Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog**

(Tudalennau 82 - 83)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 20 Hydref 2025

**5.8 Cwestiynau dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Medi 2025 - Prosesu Bwyd**

(Tudalennau 84 - 85)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - 20 Hydref 2025

**5.9 Prosesu Bwyd**

(Tudalen 86)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Castell Howell - 24 Hydref 2025

**5.10 Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd**

(Tudalennau 87 - 88)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru - 21 Hydref 2025

**5.11 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Hybu Cig Cymru**

(Tudalennau 89 - 99)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru - 15 Hydref 2025

Ymateb Hybu Cig Cymru - 22 Hydref 2025

**5.12 Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol Cymru: Llythyr at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU**

(Tudalennau 100 - 112)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru - 23 Hydref 2025

Ymateb Llywodraeth y DU - 27 Hydref 2025 (Saesneg yn unig)

**5.13 Ymgynghoriadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS)**

(Tudalen 113)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol - 28 Hydref 2025 (Saesneg yn unig)

**5.14 Adroddiad traws-bwyllgor ar yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE**

(Tudalennau 114 - 133)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru - 29 Hydref 2025

**5.15 Cytundeb Cynhwysfawr rhwng y DU ac India o ran yr Economi a Masnach**

(Tudalennau 134 - 135)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio - 30 Hydref 2025

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

12.10

## Sesiwn breifat

12.10 - 12.25

## 7 Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Trafod y dystiolaeth

12.10 - 12.25

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

BRITISH STEEL

10 October 2025

Andrew RT Davies MS
Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

Dear Mr Davies,

I am writing to request a meeting to discuss an issue of growing importance for British Steel and for Wales's wider industrial base.

As you know, British Steel has long been a cornerstone of the UK's manufacturing capability and a vital contributor to communities and supply chains across Wales and beyond. We are proud of our role in supporting jobs, investment and the materials that underpin national infrastructure. However, we are increasingly concerned that the current policy and procurement landscape in Wales is unintentionally working against those objectives.

As new frameworks on embodied carbon and procurement evolve, UK-produced steel – particularly blast furnace steel – is finding it harder to compete for major construction and infrastructure projects, even where it remains the most resilient and strategically aligned option. We recognise and support the Welsh Government's ambition to lead on net zero construction and embodied carbon standards, as set out in the Net Zero Strategic Plan and related policies. However, in practice, the system for assessing carbon and supply chains often focuses too narrowly on headline figures, without taking account of lifetime emissions, supply chain resilience, or the wider value of supporting domestic production.

We are already seeing this play out in practice. Under the Sustainable Communities for Learning programme, the funding criteria for 2025 set a threshold of 600kg of $CO_2$ per $m^2$, following the UK Green Building Council methodology. This effectively disqualifies British-made blast furnace steel from supply, despite its strategic importance and the jobs and communities it supports. As a direct result, the major school-building programme delivered in Wales over the past two years has relied almost entirely on imported steel, at the expense of UK producers.

This has caused significant commercial harm to Welsh businesses in our supply chain, most notably Dyfed Steel in Llanelli – our largest customer in Wales – which has lost major orders to distributors of imported steel. Dyfed Steel has previously raised this issue directly with its Senedd constituency member in January 2025.

These developments raise important questions for Wales's industrial strategy and the coherence of its net zero policies. Public procurement should be a lever for strengthening the economy, supporting skilled employment and securing resilient supply chains. Instead, the current approach risks channelling taxpayer-funded projects towards low-carbon imports and away from UK producers who support jobs, livelihoods and communities across the country.

British Steel shares the same long-term goal as government – to deliver low-carbon, sustainable steel production in the UK. The challenge is ensuring that policy and procurement support that transition, rather than undermining it.

We would welcome the opportunity to brief you and the Committee in more detail, and to discuss how future scrutiny and policy development might help ensure that public investment continues to support Welsh industry, British manufacturing and the transition to net zero.

Yours sincerely,

L Coulson

Lisa Coulson

Chief Commercial Officer
British Steel

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Bernd Lange MEP
Cadeirydd y Pwyllgor ar Fasnach Ryngwladol
Senedd Ewrop

16 Hydref 2025

Annwyl Bernd Lange,

**Cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Dur**

Mae gorgapasiti byd-eang yn y sector dur a dympio mewnforion dur rhad yn argyfwng dirfodol cyffredin i'r sector dur yn yr UE a'r DU.

Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am yr Economi a Masnach yn Senedd Cymru, rydym yn gwybod yn iawn am effeithiau dinistriol y materion hyn ar ein cymunedau a'n diwydiant cynhyrchu dur. Fel y gwyddom, dyma effeithiau sy'n cael eu teimlo gan lawer o wledydd a rhanbarthau yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r DU a'r UE yn bartneriaid masnachu pwysig ym maes dur. Mae tua 80% o ddur Cymru yn cael ei allforio i'r UE bob blwyddyn, a dur yr UE yw 50-60% o'n mewnforion dur ni. Mae ein diwydiannau gweithgynhyrchu sy'n dibynnu ar y sector dur, gan gynnwys y diwydiannau amddiffyn, moduron a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, gymaint ynghlwm wrth ei gilydd, ac rydym yn rhannu uchelgais i sicrhau bod ein diwydiannau domestig yn ffynnu er mwyn cefnogi'r broses o drawsnewid ein seilwaith a phontio i ddyfodol gwyrdd.

Yng nghyd-destun y farchnad ddur fyd-eang a'r ffaith bod llawer yn mabwysiadu polisïau masnach sy'n gynyddol amddiffynnol, mae'n ddealladwy y byddai aelod-wladwriaethau'r UE yn ceisio amddiffyn eu marchnad rhag mewnforion rhad. Yn union fel yr ydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn ei wneud pan fydd yn adnewyddu ei mesurau diogelu ar gyfer dur y flwyddyn nesaf.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Fodd bynnag, credwn y byddai'r cynigion newydd hyn, os cânt eu cyflwyno gan y Comisiwn Ewropeaidd heb ragor o randdirymiadau nac esemptiadau ar gyfer y DU, yn cael effaith andwyol sylweddol ar ddiwydiant yn y DU a'r UE. Mae'r Pwyllgor wedi clywed y byddai gweithredu'r cynigion fel y'u cyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, heb newid, yn codi bygythiad 'bodolaethol' i'n cymunedau cynhyrchu dur yng Nghymru sydd eisoes wedi dioddef yn ddirfawr o gau gweithiau dur a cholli swyddi.

Fel cynghreiriaid o ran hyrwyddo masnach deg a rhydd, credwn fod lle i gytundeb a fyddai o les i'r DU a'r UE ill dau a fyddai'n cefnogi ac yn amddiffyn diwydiannau'r ddau ohonom heb orfod troi at fesurau cilyddol niweidiol. Rydym yn nodi ac yn croesawu'r cytundeb y daethpwyd iddo ym mis Mai eleni i adfer cwota dur penodol gwledydd y DU i'r UE i lefelau hanesyddol a'r ymrwymiad i adlewyrchu hyn mewn cyfundrefn ar ôl 2026.

Wrth i'ch Pwyllgor a Senedd Ewrop drafod y cynigion hyn a'r berthynas fasnachu ehangach rhwng y DU a'r UE yn y misoedd nesaf, rydym yn gobeithio y byddwch yn ystyried, ac yn cefnogi, unrhyw fesurau a gynlluniwyd i barhau â masnach ddi-dariff rhyngom a chadw'r ymdrech a'r cynnydd gan y ddwy ochr ers i'r DU adael yr UE i'r diben cyffredin hwn.

Byddem yn hapus i ymgysylltu ymhellach â chi ar y mater hwn ac i hwyluso'r ddarpariaeth o unrhyw wybodaeth bellach a fyddai o gymorth i chi yn eich gwaith.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi at: Manon Aubry ASE

Iuliu Winkler ASE

Kathleen Van Brempt ASE

Karin Karlsbro ASE

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Syr Chris Bryant AS
Gweinidog Gwladol
Adran Busnes a Masnach
Llywodraeth y DU

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Llywodraeth Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Llywodraeth y DU

16 Hydref 2025

Annwyl Syr Chris, Rebecca a Jo,

**Amddiffyn Masnach**

Yng ngoleuni cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer dur yr wythnos diwethaf, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am ddyfodol y diwydiant dur yng Nghymru a'r DU yn ehangach. Fel y gwyddoch yn iawn, mae dur yn ddiwydiant hanfodol i'r wlad; mae'n cynnal llawer o swyddi o ansawdd uchel ledled Cymru. Felly, mae angen cefnogaeth gref arno drwy bolisi'r Llywodraeth.

Ddydd Iau 9 Hydref, gwnaethom gynnal cyfarfod i edrych ar ddyfodol dur Cymru. Yn y cyfarfod hwn, clywsom gan Tata a chan undebau llafur allweddol sy'n cynrychioli gweithwyr dur. Fe'i gwnaed yn gwbl glir gan Tata a'r undebau llafur y gallai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd, o gael eu gwireddu, fod yn fygythiad gwirioneddol i'r diwydiant dur yng Nghymru a'r DU yn ehangach.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, dywedodd Rajesh Nair, Prif Weithredwr Tata Steel UK wrthym fod angen i'r DU hefyd ddechrau edrych ar, neu ddylunio, y systemau cwota newydd neu'r systemau diogelu yr hoffai eu rhoi ar waith, yn debyg i'r hyn y mae'r Undeb Ewropeaidd wedi'i wneud.

Clywsom gan Alasdair McDiarmid, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol Undeb Community, fod tariffau'r Unol Daleithiau wedi bod yn broblem fawr i'r diwydiant, ond y byddai'r cynigion ar raddfa hollol wahanol gan fod 80% o ddur Cymru yn cael ei allforio i'r UE. Adleisiodd Alasdair alwadau Rajesh am gamau amddiffyn masnach cryfach, gan ddweud bod rhaid i ni gyflwyno camau gwirioneddol bendant ar ein cyfundrefn amddiffyn masnach ein hunain.

Hefyd, fe nododd Alasdair fod y defnydd domestig o ddur a gynhyrchir yn y DU ar ei isaf erioed. Dywedodd wrth y Pwyllgor bod dur a gynhyrchir yn y DU yn bodloni 32% yn unig o'r galw am ddur yn y DU. Tynnodd sylw at y ffaith bod y sefyllfa hon, er ei difrifoldeb, yn cynnig cyfle hefyd. Awgrymodd y byddai cael y camau amddiffyn masnach cywir, a'r buddsoddiad cywir, yn rhoi cyfle inni dyfu ein diwydiant i adennill rhywfaint o'r gyfran honno o'r farchnad.

Yng ngoleuni cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ac amgylchedd masnachu byd-eang sy'n gynyddol anwadal, mae'r Pwyllgor yn credu bod rhaid i Lywodraeth y DU gael cyfundrefn amddiffyn masnach ymatebol ar waith i sicrhau bod diwydiant dur y DU yn cael chware teg wrth gystadlu.

Rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio i gefnogi ein diwydiant dur, er mwyn osgoi rhyfel masnach niweidiol, ond hefyd i sicrhau bod ein mesurau amddiffyn masnach yn barod at angen.

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am y trafodaethau ar gynigion y Comisiwn ac unrhyw waith i weithredu polisi amddiffyn masnach newydd i ddiogelu ein diwydiant dur.

Yn gywir,



**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Llywodraeth Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Llywodraeth y DU

16 Hydref 2025

Annwyl Rebecca a Jo,

**Sesiwn ar Ddyfodol Dur Cymru – 9 Hydref 2025**

Ddydd Iau 9 Hydref, cynhaliwyd cyfarfod ar ddyfodol dur Cymru, gan edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ers i'r ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot gau. Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom edrych ar brofiad y gweithwyr sydd wedi cael eu diswyddo a'r gymuned ehangach.

Yn ystod y cyfarfod hwn, clywsom gan gynrychiolwyr o Bwyllgor Aml-undeb Tata ym Mhort Talbot. Fe wnaethon ni wahodd y Pwyllgor Aml-undeb i roi tystiolaeth oherwydd, er ein bod ni'n awyddus i glywed gan Tata a chan uwch gynrychiolwyr undebau, roeddem hefyd am ddeall beth oedd yn digwydd a beth oedd pobl yn ei deimlo ar lefel sy'n fwy ' ar lawr gwlad'.

Gwnaeth cynrychiolwyr y Pwyllgor Aml-undeb roi dystiolaeth a mewnwelediad pwysig a phwerus ynghylch effaith y newid hwn, ac anghenion gweithwyr a chymunedau yr effeithir arnynt. Rwy'n eich annog i ddarllen y trawsgrifiad o'r sesiwn gyda'r panel hwn, sydd ar gael ar wefan y Senedd.

Roedd y Pwyllgor yn hynod siomedig o glywed nad yw cynrychiolwyr undebau lleol wedi cael eu cynnwys ar y Bwrdd Pontio. Credwn y byddai eu harbenigedd a'u persbectif lleol yn amhrisiadwy, ac mae peidio â'u cynnwys yn tanseilio gallu'r Bwrdd i sicrhau cefnogaeth i'w waith ymysg cymunedau lleol a darparu cefnogaeth ystyrlon.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Byddem yn pwyso arnoch yn gryf i wahodd cynrychiolydd o'r Pwyllgor Aml-undeb i ymuno â chyfarfodydd y Bwrdd Pontio yn y dyfodol ac ymgysylltu'n llawn yn ei waith yn y dyfodol. Byddai'n dda pe gallech ddweud wrthym a ydych chi'n bwriadu gwneud hyn, ac os penderfynwch beidio ag estyn gwahoddiad o'r fath, gofynnwn i chi ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi eich rhesymau dros hynny.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rajesh Nair
Prif Swyddog Gweithredol
Tata Steel UK

24 Hydref 2025

Annwyl Rajesh,

**Gwybodaeth ddilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar 9 Hydref**

Diolch i chi am ddarparu tystiolaeth ar 9 Hydref ynghylch datblygiadau yn Tata fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol dur Cymru.

Ers hynny, mae Tata wedi cadarnhau y bydd cyfnod cau hir ar rai safleoedd rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, gan effeithio ar y felin stribed boeth ym Mhort Talbot, y gweithfeydd tunplat yn Nhrostre, a'r llinell biclo yn Llanwern. Mae'r Pwyllgor wedi clywed adroddiadau y bydd gweithwyr y mae hyn yn effeithio arnynt yn cael 65% o'u cyflog arferol yn ystod y cyfnod hwn, a bod rhai o'r rheini sy'n weithio fel contractwyr yn cael hysbysiad diswyddo gan eu cyflogwyr oherwydd y penderfyniad hwn.

A allwch chi gadarnhau'r rhesymeg dros y cyfnod cau, a fydd gweithwyr yr y mae hyn yn effeithio arnynt ond yn derbyn 65% o'u cyflog dros y cyfnod hwn, ac os felly pam eich bod wedi penderfynu mai dyma fydd y gostyngiad yn eu cyflog? A allwch chi hefyd nodi sut y gwnaethoch chi ystyried yr effaith ar y rheini sy'n gweithio fel contractwyr wrth benderfynu ar gyfnod cau hir?

Yn ogystal, codwyd nifer o faterion pwysig yn ystod y sesiynau tystiolaeth eraill ar 9 Hydref. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth a ganlyn i helpu'r Pwyllgor i ddeall y sefyllfa:

- Clywodd y Pwyllgor bryderon nad yw Tata yn gwireddu addewidion a wnaed i'r undebau llafur ynghylch buddsoddiadau yn y dyfodol ar eich safleoedd yng Nghymru, heblaw am y ffwrnais arc trydan newydd. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladu llinell galfaneiddio newydd

ac uwchraddio pellach yn Llanwern, uwchraddio ehangach ym Mhort Talbot, ac ystyried uwchraddio yn Nhrostre. Sut fyddech yn ymateb i'r pryderon hyn?

- Mae'r Pwyllgor yn deall bod Tata wedi ymrwymo y byddai dros 90% o gontractwyr sy'n gweithio ar y ffwrnais arc trydan newydd yn rhai lleol, ac y byddai gweithwyr a gafodd eu diswyddo yn cael blaenoriaeth wrth lenwi'r swyddi hyn. A allwch chi gadarnhau sut rydych chi wedi ceisio gwireddu'r addewidion hyn, a pha ganran o'r rhai sy'n gweithio i gontractwyr ar y ffwrnes arc trydan newydd sy'n bobl leol?

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod 30 aelod o staff wedi elwa o'r cynllun ffyrlo a ddarparwyd gennych, yn hytrach na'r 100 a addawyd gan Tata. A allwch chi amlinellu sut y gweithiodd y broses ffyrlo, a pham y gwnaeth llai o weithwyr elwa ohoni nag a ragwelwyd?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Alasdair McDiarmid
Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol
Undeb Community

27 Hydref 2025

Annwyl Alasdair,

**Gwybodaeth ddilynol ar ôl y sesiynau tystiolaeth ar 9 Hydref**

Diolch i chi am roi tystiolaeth ar 9 Hydref ynghylch datblygiadau yn Tata fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol dur Cymru.

Yn dilyn y cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael dealltwriaeth ddyfnach o sut mae'r undebau'n parhau â'u perthynas â'u haelodau yn dilyn y diswyddiadau gan Tata, a sut mae'r undebau wedi estyn allan at aelodau sydd wedi colli eu swyddi er mwyn eu cefnogi i ailymuno â byd gwaith.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi, felly, fanylu ar y dull y mae eich undeb wedi'i gymryd mewn perthynas â'r materion hyn yn dilyn y diswyddiadau gan Tata, a sut mae'r undebau wedi cydweithio i sicrhau ymateb cyson a chydlynol. Fel rhan o'r ymateb, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael rhagor o fanylion am y dulliau ar gyfer cyrraedd y gweithwyr hynny sydd wedi ymgysylltu llai â'r cymorth sydd ar gael, ac ar gyfer cefnogi'r rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd o Bort Talbot.

A allwch chi hefyd roi gwybod i ni a yw eich undeb yn cynnig cyfraddau penodol fel y gall aelodau di-waith barhau i fod yn aelodau o'u hundeb ar ôl iddynt gael eu diswyddo?

Rwyf wedi ysgrifennu at y tri undeb dur ac at y Pwyllgor Aml-Undeb mewn termau tebyg a byddwn yn hapus i gael ymatebion unigol neu atebion ar y cyd i'r pwyntiau a godwyd.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Tom Hoyles
Gweinyddiaeth y Wasg ac Ymchwil
Undeb y GMB

27 Hydref 2025

Annwyl Tom,

**Gwybodaeth ddilynol ar ôl y sesiynau tystiolaeth ar 9 Hydref**

Diolch i chi am roi tystiolaeth ar 9 Hydref ynghylch datblygiadau yn Tata fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol dur Cymru.

Yn dilyn y cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael dealltwriaeth ddyfnach o sut mae'r undebau'n parhau â'u perthynas â'u haelodau yn dilyn y diswyddiadau gan Tata, a sut mae'r undebau wedi estyn allan at aelodau sydd wedi colli eu swyddi er mwyn eu cefnogi i ailymuno â byd gwaith.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi, felly, fanylu ar y dull y mae eich undeb wedi'i gymryd mewn perthynas â'r materion hyn yn dilyn y diswyddiadau gan Tata, a sut mae'r undebau wedi cydweithio i sicrhau ymateb cyson a chydlynol. Fel rhan o'r ymateb, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael rhagor o fanylion am y dulliau ar gyfer cyrraedd y gweithwyr hynny sydd wedi ymgysylltu llai â'r cymorth sydd ar gael, ac ar gyfer cefnogi'r rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd o Bort Talbot.

A allwch chi hefyd roi gwybod i ni a yw eich undeb yn cynnig cyfraddau penodol fel y gall aelodau di-waith barhau i fod yn aelodau o'u hundeb ar ôl iddynt gael eu diswyddo?

Rwyf wedi ysgrifennu at y tri undeb dur ac at y Pwyllgor Aml-Undeb mewn termau tebyg a byddwn yn hapus i gael ymatebion unigol neu atebion ar y cyd i'r pwyntiau a godwyd.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Barrie Evans
Y Pwyllgor Aml-Undeb

Ian Williams
Y Pwyllgor Aml-Undeb

27 Hydref 2025

Annwyl Barrie a Ian,

**Gwybodaeth ddilynol ar ôl y sesiynau tystiolaeth ar 9 Hydref**

Diolch i chi am roi tystiolaeth ar 9 Hydref ynghylch datblygiadau yn Tata fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol dur Cymru.

Yn dilyn y cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael dealltwriaeth ddyfnach o sut mae'r undebau'n parhau â'u perthynas â'u haelodau yn dilyn y diswyddiadau gan Tata, a sut mae'r undebau wedi estyn allan at aelodau sydd wedi colli eu swyddi er mwyn eu cefnogi i ailymuno â byd gwaith.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi, felly, fanylu ar y dull y mae eich undeb wedi'i gymryd mewn perthynas â'r materion hyn yn dilyn y diswyddiadau gan Tata, a sut mae'r undebau wedi cydweithio i sicrhau ymateb cyson a chydlynol. Fel rhan o'r ymateb, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael rhagor o fanylion am y dulliau ar gyfer cyrraedd y gweithwyr hynny sydd wedi ymgysylltu llai â'r cymorth sydd ar gael, ac ar gyfer cefnogi'r rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd o Bort Talbot.

A allwch chi hefyd roi gwybod i ni a yw eich undeb yn cynnig cyfraddau penodol fel y gall aelodau di-waith barhau i fod yn aelodau o'u hundeb ar ôl iddynt gael eu diswyddo?

Rwyf wedi ysgrifennu at y tri undeb dur ac at y Pwyllgor Aml-Undeb mewn termau tebyg a byddwn yn hapus i gael ymatebion unigol neu atebion ar y cyd i'r pwyntiau a godwyd.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Jason Bartlett
Swyddog Cenedlaethol Tata Steel UK
Unite the Union Cymru

27 Hydref 2025

Annwyl Jason,

**Gwybodaeth ddilynol ar ôl y sesiynau tystiolaeth ar 9 Hydref**

Diolch i chi am roi tystiolaeth ar 9 Hydref ynghylch datblygiadau yn Tata fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol dur Cymru.

Yn dilyn y cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael dealltwriaeth ddyfnach o sut mae'r undebau'n parhau â'u perthynas â'u haelodau yn dilyn y diswyddiadau gan Tata, a sut mae'r undebau wedi estyn allan at aelodau sydd wedi colli eu swyddi er mwyn eu cefnogi i ailymuno â byd gwaith.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi, felly, fanylu ar y dull y mae eich undeb wedi'i gymryd mewn perthynas â'r materion hyn yn dilyn y diswyddiadau gan Tata, a sut mae'r undebau wedi cydweithio i sicrhau ymateb cyson a chydlynol. Fel rhan o'r ymateb, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael rhagor o fanylion am y dulliau ar gyfer cyrraedd y gweithwyr hynny sydd wedi ymgysylltu llai â'r cymorth sydd ar gael, ac ar gyfer cefnogi'r rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd o Bort Talbot.

A allwch chi hefyd roi gwybod i ni a yw eich undeb yn cynnig cyfraddau penodol fel y gall aelodau di-waith barhau i fod yn aelodau o'u hundeb ar ôl iddynt gael eu diswyddo?

Rwyf wedi ysgrifennu at y tri undeb dur ac at y Pwyllgor Aml-Undeb mewn termau tebyg a byddwn yn hapus i gael ymatebion unigol neu atebion ar y cyd i'r pwyntiau a godwyd.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Unite the Union
19 High Street
Swansea
SA1 1LF

Tel: 01792 472410
Fax: 01792 644410

WALES /CYMRU

Regional Secretary/Ysgrifennydd Rhanbarthol
Peter Hughes

Uno'r Undeb

**Andrew RT Davies MS**
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

28th October 2025

Good afternoon, Andrew.

Thank you for the email and content of the attached letter.

The first point to mention is that Unite does provide a reduced rate for members that become unemployed, there are the return-to-work members who pay £2.60 per week and then the retired members who pay £2.38 per week, all get the same benefit as a fully employed member.

Unite focus on updating members and non-members around the importance and benefits of being a member, we use social media, email, and text messages, you can see the General Secretary Sharon Graham is every single day communicating on social media of disputes and wins that have been achieved.

During any redundancy process there are the local reps on site that are the first point of contact, within Tata Steel Port Talbot we have 18 representatives on site and the senior rep is on days permanently, when an individual is required to attend the redundancy consultation they are supported by the local rep, if they are then made redundant it is explained around retention of their membership at the reduced rate and what training is available.

If a member drops off the system, we get a report every Sunday where the retention team will contact the member to ask the reason for cancelling the membership, most often it's because they pay off check off and then get no wages so Tata will not be able to deduct it from their pay. They are then taken through the options and payment via direct debit.

All members were supported during the redundancy process by local reps and the multi union, on-going training was offered, the multi union officers were part of the Transition Board and take part in Jobmatching, Outplacement and Skills Workstream which offers training and support to those effected.

It is very difficult to reach out to members that have engaged less, some have disengaged for a reason that Unite do not know, communication can be difficult depending on what information they have put on their membership i.e.: - phone number, email address.

Unite the Union
19 High Street
Swansea
SA1 1LF

Tel: 01792 472410
Fax: 01792 644410

WALES /CYMRU

Regional Secretary/Ysgrifennydd Rhanbarthol
Peter Hughes



It has and always is Unite the Union's position to offer as much support to members around any issue they encounter.

Kind regards,

Jason Bartlett
**National Officer for Tata Steel UK**
**Unite the Union**

Andrew RT Davies MS
Chair of the Economy, Trade, and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

17 October 2025

Dear Mr Davies,

I'm writing to you in relation to the Senedd Economy, Trade, and Rural Affairs Committee session held on 9 October 2025. I noticed that figures were shared about Hinkley Point C (HPC) nuclear power station which weren't an accurate representation of the project, and I'd like to take this opportunity to correct the record and highlight the significant contribution Wales is making to HPC.

In the session, there were figures which suggested that 95% of HPC's supply chain is in France. I'm pleased to share that 64% of the project's value is going to British businesses, with over 4,600 British companies in the supply chain.

To date, 190 Welsh companies have been directly involved in HPC's supply chain, with £188 million spent on Welsh contracts, and 200,000 tonnes of Welsh steel will be used to build the station. In addition to all those in the wider supply chain, of the nearly 15,000 workers we have on site itself, 2,380 are Welsh. HPC also took over the training of 29 former Horizon apprentices following the pause of the Wylfa development.

Welsh suppliers include Express Reinforcements in Neath and Newport for steel reinforcement, William Hare in Risca for steel, engineering and design, and Ledwood in Pembroke Dock for steel and pipe fabrication. These are just a few examples of how Welsh industry is helping to deliver the UK's first new nuclear power station in a generation - boosting growth, productivity, and skills. Nationally, HPC is contributing £13.3bn to the UK economy, supporting 26,000 jobs, and has trained over 1,500 apprentices.

The UK's nuclear renaissance is well underway, and EDF is proud of our central role in this. Construction of HPC's Reactor Unit 2 is progressing 20-30% faster than Unit 1, and the insights and experience gained will directly benefit Sizewell C and future gigawatt-scale projects. As HPC and Sizewell C are built, it is important too that the UK Government retains Wylfa as an option for future GW scale.

Please don't hesitate to get in touch if you have any questions or would like further information. I would also be delighted to help arrange a meeting with colleagues or a visit to HPC, should that be of interest.

Kind regards,

Andrew Cockcroft
Head of Stakeholder Relations – Hinkley Point C



edfenergy.com

*This correspondence is a corporate communication issued by EDF Energy Ltd on behalf of EDF Energy (UK) Limited, (Registered No. 2622406) and its subsidiaries*

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Llywodraeth Du

17 Hydref 2025

Annwyl Jo,

**Gwahoddiad i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ynghylch y datblygiadau yn niwydiant dur Cymru**

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn archwilio goblygiadau penderfyniad Tata i gau'r ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot a phontio i system o gynhyrchu dur gan ddefnyddio ffwrnais arc drydan. Mae'r ymchwiliad yr ydym yn ei gynnal yn ystyried dyfodol diwydiant dur Cymru, effaith colli swyddi ar weithwyr dur a'u cymunedau, a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Pontio a thrwy sianeli ychwanegol.

Rwy'n ymwybodol bod clerc y Pwyllgor wedi cysylltu â'ch swyddogion er mwyn ceisio trefnu dyddiad addas pan fyddwch yn gallu bod yn bresennol mewn un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Nod y Pwyllgor yw deall safbwynt Llywodraeth y DU ar nifer o faterion allweddol sy'n ymwneud â'r cyfnod pontio ym Mhort Talbot a dyfodol y diwydiant dur. Rwy'n deall mai'r opsiwn a ffefrir gennych yw aros hyd nes bod strategaeth dur newydd Llywodraeth y DU yn cael ei chyhoeddi. Serch hynny, mae llu o faterion difrifol wedi codi mewn perthynas â diwydiant dur Cymru dros yr wythnosau diwethaf, gan gynnwys y cyhoeddiad diweddar ynghylch cau'r gwaith yn safleoedd Tata ym Mhort Talbot, Llanwern a Throstre am gyfnod estynedig dros y Nadolig. O ganlyniad, mae'n hanfodol ein bod yn cael tystiolaeth gan Lywodraeth y DU ar y materion hanfodol a brys hyn cyn gynted â phosibl.

Byddem yn gallu cynnal sesiwn dystiolaeth o'r fath ar 3 Rhagfyr, 11 Rhagfyr neu 18 Rhagfyr. Os nad yw'r dyddiadau hyn yn addas i chi, gall clerc y Pwyllgor roi gwybod i'ch swyddogion ba slotiau eraill sydd ar gael.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Diolch ichi am eich sylw o ran y mater hynod bwysig hwn.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Julian Walker
Prif Swyddog Masnachol a Chyfarwyddwr Rhanbarthol, Cymru
Associated British Ports (ABP)

20 Hydref 2025

Annwyl Julian,

**Dyfodol Dur yng Nghymru**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn gwneud darn o waith parhaus ar Ddyfodol Dur yng Nghymru. Fel rhan o hynny, rydym wedi bod yn edrych ar y newid gan Tata i gynhyrchu dur drwy ddefnyddio ffwrnais arc drydan ym Mhort Talbot.

Fel rhan o'n gwaith, rydym wedi bod yn ystyried cyfleoedd economaidd yn y dyfodol ym Mhort Talbot a'r ardaloedd cyfagos, a'r rôl y gallai Tata, y gadwyn gyflenwi, a'r gweithlu lleol ei chwarae yn hynny o beth.

Pan wnaethom siarad â Tata am hyn, fe ddywedon nhw wrthym: "As we move forward, we will work with all people who are potentially interested in using parts of the site to work and deliver their own business. And, as far as the EAF is concerned, once we start making the steel, that steel is available for everyone to use in their respective applications."

Yn sgil y datblygiadau yn y Gwaith Dur ac fel rhan o'n gwaith ar Ddyfodol Dur yng Nghymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Pa rôl ydych chi'n disgwyl i weithrediadau Tata ym Mhort Talbot ei chwarae mewn perthynas â'r Porthladd Rhydd Celtaidd?

- Pa gyfleoedd ydych chi'n eu rhagweld i ddefnyddio dur o Bort Talbot mewn perthynas â phrosiectau’r Porthladd Rhydd Celtaidd, ac mewn perthynas â datblygiadau ynni gwynt arnofiol ar y môr sydd ar ddod?
- Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Tata ynghylch y cyfleoedd posibl hyn?
- Yn eich barn chi, pa botensial sydd i'r Porthladd Rhydd Celtaidd gefnogi creu swyddi diogel gyda chyflogau da i'r rhai y mae colli swyddi yn Tata yn effeithio arnynt, a sut ydych chi'n bwriadu gwireddu'r cyfleoedd hyn?

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Porthladd Rhydd Celtaidd i ofyn y cwestiynau hyn, ac rwy'n hapus i gael ymateb unigol neu ar y cyd fel y gwelwch yn dda. Diolch ichi ymlaen llaw am eich amser a’ch cymorth gyda’r ymchwiliad hwn. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Luciana Ciubotariu
Prif Swyddog Gweithredol
Porthladd Rhydd Celtaidd

20 Hydref 2025

Annwyl Luciana,

**Dyfodol Dur yng Nghymru**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn gwneud darn o waith parhaus ar Ddyfodol Dur yng Nghymru. Fel rhan o hynny, rydym wedi bod yn edrych ar y newid gan Tata i gynhyrchu dur drwy ddefnyddio ffwrnais arc drydan ym Mhort Talbot.

Fel rhan o'n gwaith, rydym wedi bod yn ystyried cyfleoedd economaidd yn y dyfodol ym Mhort Talbot a'r ardaloedd cyfagos, a'r rôl y gallai Tata, y gadwyn gyflenwi, a'r gweithlu lleol ei chwarae yn hynny o beth.

Pan wnaethom siarad â Tata am hyn, fe ddywedon nhw wrthym: "As we move forward, we will work with all people who are potentially interested in using parts of the site to work and deliver their own business. And, as far as the EAF is concerned, once we start making the steel, that steel is available for everyone to use in their respective applications."

Yn sgil y datblygiadau yn y Gwaith Dur ac fel rhan o'n gwaith ar Ddyfodol Dur yng Nghymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Pa rôl ydych chi'n disgwyl i weithrediadau Tata ym Mhort Talbot ei chwarae mewn perthynas â'r Porthladd Rhydd Celtaidd?

- Pa gyfleoedd ydych chi'n eu rhagweld i ddefnyddio dur o Bort Talbot mewn perthynas â phrosiectau'r Porthladd Rhydd Celtaidd, ac mewn perthynas â datblygiadau ynni gwynt arnofiol ar y môr sydd ar ddod?
- Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Tata ynghylch y cyfleoedd posibl hyn?
- Yn eich barn chi, pa botensial sydd i'r Porthladd Rhydd Celtaidd gefnogi creu swyddi diogel gyda chyflogau da i'r rhai y mae colli swyddi yn Tata yn effeithio arnynt, a sut ydych chi'n bwriadu gwireddu'r cyfleoedd hyn?

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Associated British Ports (ABP) i ofyn y cwestiynau hyn, ac rwy'n hapus i gael ymateb unigol neu ar y cyd fel y gwelwch yn dda. Diolch ichi ymlaen llaw am eich amser a'ch cymorth gyda'r ymchwiliad hwn. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1629/25

Andrew RT Davies MS
Chair
Economy, Trade, and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

17 Hydref 2025

Annwyl Andrew,

Ysgrifennaf i'ch hysbysu o'm bwriad i roi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i wneud rheoliadau ar ran Cymru mewn maes o gymhwysedd datganoledig, yn unol â'r pwerau a roddwyd iddi i wneud hynny yn Erthygl 38a(3) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007.

Mae Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Diwygio) 2025 yn ofynnol i gyflwyno dyddiadau dod i ben newydd ar gyfer tri rhanddirymiad organig. Mae'r rhanddirymiadau hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer defnyddio cywennod anorganig wrth gynhyrchu wyau organig, ar gyfer defnyddio gwm gellan anorganig mewn cynhyrchu organig ac ar gyfer cynnwys hyd at 5% o fwyd anifeiliaid protein anorganig ar gyfer moch a dofednod. Bydd yr OS arfaethedig yn ymestyn y rhanddirymiadau hyn tan 31 Rhagfyr 2026.

Bydd ymestyn y rhanddirymiadau tan 31 Rhagfyr 2026 yn darparu sicrwydd a sefydlogrwydd o ystyried y darlun economaidd presennol, yn lleihau'r effaith ariannol bosibl i gynhyrchwyr a gweithredwyr a allai gael eu gorfodi i wneud newidiadau strwythurol interim (cywennod), a'r baich ariannol a gweinyddol i fusnesau ar gyfer ceisiadau rhanddirymu dro ar ôl tro (gwm gellan).

Bydd y rhanddirymiadau hyn yn caniatáu i gynhyrchu organig barhau yn ddi-dor tra bod y farchnad yn datblygu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er bod gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau yn y maes hwn, mae'n bwysig osgoi anghysondebau diangen rhwng Cymru, yr Alban a Lloegr mewn rheoliadau technegol oherwydd natur rhyng-gysylltiedig ein marchnadoedd amaethyddol. Mae'r OS arfaethedig yn bwriadu ymestyn dyddiad dod i ben y rheoliadau sydd eisoes ar waith, yn hytrach na chreu unrhyw bolisi newydd, ac felly ni fydd unrhyw newid ymarferol i'r status quo. Mae'r OS yn estyniad o reoliadau blaenorol, a wnaed gan ddefnyddio'r un pwerau ar lefel Prydain Fawr. Mae'r Fframwaith Cynhyrchu Organig yn darparu strwythur llywodraethu lle mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu rheoliadau yn y maes hwn.

Bydd yr OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' a chynigir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ei bod yn cael ei osod gerbron y Senedd ar 22 Hydref 2025. Ymgynghorodd cydweithwyr DEFRA â swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd drwy gydol y broses o ddatblygu'r rheoliadau hyn a byddant yn parhau i weithio'n agos gyda'u cymheiriaid i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r OS.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

20 Hydref 2025

Annwyl Huw,

**Gwaith dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Hydref 2025 – Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog**

Diolch ichi unwaith eto am ddod i sesiwn Craffu Cyffredinol ar Waith Gweinidogion y Pwyllgor ar 1 Hydref. Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch gynnig ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch sawl mater, a nodir isod i'ch atgoffa, ac er eglurder:

- Manylion a dyddiadau'r cynllun cyfathrebu o ran sut y byddwch yn rhoi gwybod i ffermwyr am y newid yn y polisi ar TB gwartheg, i gyfyngu ar anifeiliaid sy'n 'adweithyddion amhendant (IR) safonol wedi'u datrys', cyn 1 Ionawr 2026.
- Nifer yr erlyniadau hyd yma ar gyfer y rhai sy'n euog o lygru afonydd (yng nghyd-destun y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru i ymdrin yn llym â'r rhai sy'n llygru afonydd).
- Manylion y strategaeth i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol ar raddfa ddiwydiannol.
- Y dyddiad yr ydych yn disgwyl gallu cyhoeddi'r opsiynau sydd ar gael o ran cyflenwad dŵr hirdymor ar gyfer Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog, ac unrhyw fanylion am waith y grŵp gorchwyl a gorffen.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn awyddus iawn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd o ran cynigion Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno trefn drwyddedu i reoleiddio rhyddhau adar hela yng



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Nghymru. Daw hyn yn sgil eich sylwadau eich bod yn aros am gyngor Gweinidogol ar hyn yn sesiwn graffu flaenorol y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2025.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r ymholiadau hyn erbyn 14 Tachwedd 2025.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

20 Hydref 2025

Annwyl Huw,

**Cwestiynau dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Medi 2025 – Prosesu Bwyd**

Diolch ichi unwaith eto am ddod i sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 24 Medi ar gyfer ein hymchwiliad i Brosesu Bwyd. Fel y trafodwyd ar ddiwedd y sesiwn, roedd sawl cwestiwn ynghylch caffael cyhoeddus na chafwyd amser i'w trafod, y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ateb ysgrifenedig iddynt. Wrth drafod eich tystiolaeth ar ôl y sesiwn, nododd y Pwyllgor hefyd ambell gwestiwn dilynol, sydd wedi'u cynnwys isod.

**Caffael cyhoeddus – bwyd a diod Cymru**

- Rydych yn tynnu sylw at y Ddeddf Caffael a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus sy'n ceisio cefnogi "cadwyni cyflenwi lleol i gynyddu faint o fwyd a diod Cymru a brynir". Rydym yn cael ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau i gefnogi'r ail o'r Deddfau hynny. Pryd y bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi?

- Mae rhanddeiliaid yn dweud eu bod am gael eglurder a chymorth ynghylch sut i weithredu'r gofynion newydd. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau contractio i'w helpu i wneud y mwyaf o'r manteision posibl a fydd yn dod yn sgil y ddeddfwriaeth newydd?

- Mae eich papur yn tynnu sylw at fentrau yn Ynys Môn a Chaerffili i roi mwy o fwyd o Gymru ar fwydlenni ysgolion. Mae hefyd yn cydnabod yr her o ehangu cynlluniau peilot

llwyddiannus yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ledaenu arferion da ledled Cymru?

**Bwyta Cig**

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth – yn benodol gan Jose Peralta o Hybu Cig Cymru – ynghylch yr anghysondeb rhwng gostwng nifer y da byw a chyfraddau bwyta cig. Mae’r Pwyllgor wedi clywed nad oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd y byddwn yn gweld gostyngiad mewn cyfraddau bwyta cig a fydd unman yn agos at gyfradd y lefelau dadstocio a ddisgwylir. Yn ddealladwy, mae hyn yn peri pryder ynghylch ymrwymiad Cymru i gyrraedd ei thargedau sero net yn ogystal â'r effaith ar ffermydd Cymru, oherwydd y bydd y sefyllfa hon, mewn gwirionedd, yn arwain at fwyta cynnyrch wedi'i fewnforio sydd ag ôl troed carbon uwch yn lle cig lleol carbon isel. Felly, hoffai'r Pwyllgor wybod a yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod y blaenoriaethau hyn sy’n gwrthdaro, a deall beth y mae'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i’r cwestiynau hyn erbyn 14 Tachwedd 2025.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 5.9

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Edward Morgan
Rheolwr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Grŵp
Castell Howell

24 Hydref 2025

Annwyl Edward,

**Prosesu Bwyd**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi bod yn cynnal ymchwiliad i brosesu bwyd yng Nghymru.

Mae Castell Howell wedi cael ei godi sawl gwaith yn ystod ein hymchwiliad fel dosbarthwr bwyd arwyddocaol, ac felly hoffem ofyn am eich barn ar yr heriau penodol o brynu a chyflenwi cynnyrch Cymreig lleol, yn ogystal â manylion am unrhyw lwyddiannau penodol a allai fod yn berthnasol i'n gwaith. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r cylch gorchwyl ar gyfer ein hymchwiliad, sydd ar gael ar ein gwefan.

Wrth i'r Pwyllgor gyrraedd diwedd ei waith casglu tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 7 Tachwedd os yn bosibl.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:PO/KS/513/2025

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

21 Hydref 2025

Annwyl Andrew,

**Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd**

Diolch am eich llythyr sy'n trafod y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i gyflawni'r amcanion a ragwelir ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE).

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda GCRE i gyflawni ei rhaglen. Mae'n gweithio gyda bwrdd y cyfarwyddwyr a thîm gweithredol GCRE Ltd i gefnogi eu hymdrechion i sicrhau buddsoddiad preifat yn y cwmni. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gallu i GCRE ymchwilio i ba raddau y gallai fod angen lleihau risg y prosiect, a hynny drwy gyllid cyhoeddus ychwanegol neu gynnig gwarant er mwyn sicrhau'r cyllid cyfalaf preifat sy'n angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r prosiect.

Wrth gwrs, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd nodi cwmpas unrhyw ymyrraeth ychwanegol nac i ba raddau y bydd ar gael, a bydd yr ymyrraeth hon yn amodol ar fwy o ddiwydrwydd dyladwy a phrofi'r farchnad. Fodd bynnag, bydd swyddogion ar gael i gefnogi'r trafodaethau hynny ar yr adeg briodol.

Yn ogystal â'r prosiect craidd i brofi'r rheilffordd, mae GCRE wedi cael adnoddau i ymestyn ei gylch gwaith i weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â rheilffyrdd i sefydlu a allai buddsoddiad cyflenwol ar y safle gynhyrchu derbyniadau neu incwm i gefnogi'r prosiect craidd. Er mwyn hwyluso hyn, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a minnau wedi ymrwymo cyllid ychwanegol i GCRE Ltd yn ddiweddar ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar y pwynt olaf, mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Gronfa Gyfoeth Wladol i drin a thrafod yr holl opsiynau i dalu cost gyfalaf GCRE.  Rwyf yn ddiolchgar fy mod wedi cael copi o'ch llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ar y mater hwn.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hybu Cig Cymru

## Ymateb i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## (Hydref 2025)

15/10/2025

## *Cynnwys*


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | ***Cyflwyniad*** | 2 |
| **2.** | ***Ymatebion i'r 9 argymhelliad*** | 2 |
| i. | Argymhelliad 1 | 2 |
| ii. | Argymhelliad 2 | 3 |
| iii. | Argymhelliad 3 | 3 |
| iv. | Argymhelliad 4 | 4 |
| v. | Argymhelliad 5 | 5 |
| vi. | Argymhelliad 6 | 5 |
| vii. | Argymhelliad 7 | 6 |
| viii. | Argymhelliad 8 | 7 |
| ix. | Argymhelliad 9 | 8 |

## 1. Cyflwyniad

Ar 3 Medi 2025, cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ei adroddiad ar Hybu Cig Cymru (HCC) a diolchaf i'r pwyllgor am gynnal yr ymchwiliad hwn.

Mae'r adroddiad yn cynnwys 9 argymhelliad, a dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

## 2. Ymatebion i'r 9 argymhelliad

### Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu llywodraethiant HCC gyda'r nod o wella cynrychiolaeth safbwyntiau'r rhai sy'n talu'r ardoll a chynyddu cyfraniad ehangach y diwydiant o fewn y sefydliad. Fel rhan o'r adolygiad hwn dylai ystyried pob opsiwn, o gadw swyddi penodol ar y bwrdd ar gyfer y rhai sy'n talu'r ardoll a'r diwydiant ehangach, i ddychwelyd perchnogaeth lawn o'r sefydliad i ddwylo talwyr yr ardoll.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru a Hybu Cig Cymru (HCC) yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod strwythurau llywodraethu HCC yn adlewyrchu barn a buddiannau talwyr yr ardoll a'r diwydiant ehangach. Gyda phump o un ar ddeg o aelodau'r bwrdd, gan gynnwys y Cadeirydd, yn talu'r ardoll, mae'r cyfraniad a wneir gan ein penodiadau cyhoeddus yn hanfodol i sicrhau bod y bwrdd yn gwella'n barhaus, yn angerddol dros y sector amaeth ac yn ymrwymo i hyrwyddo, datblygu a marchnata cig coch o Gymru yng Nghymru.

Mae bwrdd presennol HCC yn cynnwys aelodau hefyd ag ystod eang o sgiliau a phersbectifau allanol. Mae aelodau'r bwrdd yn dod ag arbenigedd angenrheidiol mewn meysydd fel cyfnewid gwybodaeth, llywodraethu, marchnata, cyllid, iechyd anifeiliaid, ymchwil a chynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd fy swyddogion yn fy nghynghori cyn hir ar yr opsiynau ailbenodi a/neu recriwtio ar gyfer yr aelodau hynny o'r bwrdd y mae eu tymhorau yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Byddaf yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor a byddaf yn parhau i sicrhau bod set sgiliau amrywiol ac yn parhau i ddarparu bwrdd cadarn ac amrywiol.

Mae'r Prif Weithredwr newydd wedi bod yn ei swydd ers mis Ionawr 2025. Mae cynnal adolygiad helaeth (fel yr argymhellir gan y Pwyllgor), tra bod gwaith sylweddol ar y Weledigaeth yn mynd rhagddo, yn dasg hirdymor y dylai'r Llywodraeth nesaf ei hystyried unwaith y bydd y Weledigaeth wedi'i chwblhau a bod y Prif Weithredwr wedi cael digon o amser i gynnal unrhyw newidiadau angenrheidiol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim

## Argymhelliad 2

Mae’r pwyllgor yn cefnogi’n llwyr y defnydd parhaus o’r ardoll statudol fel dull o ariannu HCC, fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gafwyd, gan gynnwys gan HCC, yn glir nad yw incwm gan yr ardoll yn unig yn ddigonol i gwmpasu cylch gwaith a llwyth gwaith presennol y sefydliad. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae’n bwriadu parhau i ariannu HCC neu sut y mae’n disgwyl i HCC barhau i weithredu’n ariannol

## Argymhelliad 3

Mae’n amlwg, er mwyn i HCC gyflawni ei fandad helaeth, y bydd angen cyllid ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru a HCC archwilio pob ffordd bosibl i gynyddu cyllideb HCC, gan gynnwys nodi gwaith y gallai HCC ei wneud i ategu polisïau eraill Llywodraeth Cymru a sicrhau cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mentrau o’r fath. Ar ben hynny, dylai nodi ffynonellau ariannu eraill y gallai HCC wneud cais amdanynt, gan gynnwys grantiau, ac o bosibl darparu gwasanaethau i sefydliadau eraill. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gynnydd mewn cyllid ar gyfer HCC ddod law yn llaw â mesurau atebolrwydd a pherfformiad gwell.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 2 a 3:**

**Derbyn:** Mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod sefyllfa ariannol HCC yn anodd am sawl rheswm, gan gynnwys oherwydd gostyngiad yn incwm yr ardoll cig coch. Mae'n edrych ymlaen at weithio gyda HCC wrth iddo ddatblygu ei flaenoriaethau drwy'r Weledigaeth ar gyfer 2026 i 2030.

Rydym wedi ymrwymo i sector amaethyddol cynaliadwy, bywiog a llwyddiannus a chadwyn fwyd sy'n helpu i greu sail i'r economi wledig ehangach. Mae angen i ni roi'r gefnogaeth gywir i'n ffermwyr drwy gydol y cyfnod pontio i system fwyd ddi-garbon a sicrhau bod tir Cymru yn ateb gofyn y dyfodol.

Mae cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn rhoi cyfle i weithio gyda thrawstoriad o sefydliadau i ddarparu ymchwil bwrpasol ac atebion arloesol ac ati i ffermwyr. Mae HCC yn rhan annatod o'r broses honno, a byddwn yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod yr SFS a Gweledigaeth HCC ar gyfer 2026 yn cael eu halinio. Unwaith y caiff y gwaith hwn ei wneud, byddwn yn diweddaru'r Pwyllgor.

Mae HCC bellach wedi gwneud cais am Fframwaith Prynu Dynamig Llywodraeth Cymru a allai rhoi cyfleoedd ariannu amgen iddynt yn y dyfodol. Bydd unrhyw gyllid y gall HCC ei gael yn y dyfodol drwy'r Fframwaith Prynu Deinamig yn gorfod cael ei lywodraethu a'i fonitro yn unol â rheolau caffael Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a daw o dan gyllidebau presennol.

## Argymhelliad 4

Er mwyn cefnogi gwaith cynllunio busnes ffermwyr a phroseswyr, dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar niferoedd da byw yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu cefnogi gostyngiad mewn niferoedd da byw, dylai nodi'r effaith ddisgwyliedig ar y diwydiant prosesu a darparu unrhyw gymorth y gallai fod ei angen

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflenwad sefydlog a digonol o dda byw yn hanfodol i hyfywedd y sectorau prosesu cig coch a llaeth yng Nghymru. Datgelodd Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Mehefin 2024 y bu newidiadau mawr yn ddiweddar yn niferoedd da byw Cymru, gyda gostyngiad mewn gwartheg, defaid a moch, ond cynnydd mewn dofednod. Mae'r tueddiadau hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun y nodau newid hinsawdd a rhagolygon poblogaethau da byw yn y dyfodol.

Yn ei gyngor diweddaraf i Gymru, mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC, cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar hinsawdd) yn argymell gostyngiad o 19% yn nifer y da byw cnoi cil erbyn 2033 (yn enwedig gwartheg a defaid), er mwyn lleihau allyriadau methan, sy'n cyfrannu'n fawr at y nwyon tŷ gwydr amaethyddol. Mae'r gostyngiadau a awgrymir gan UKCCC yn rhan o Lwybr Cytbwys ar gyfer yr economi gyfan. Yn eu barn nhw, mae hon yn ffordd gost-effeithiol sy'n cydbwyso'r angen i ddatgarboneiddio ym mhob sector o'n heconomi i raddau gwahanol. Wrth lunio'r argymhelliad, mae'r UKCCC yn defnyddio llinell sylfaen sy'n dechrau yn 2025, lle amcangyfrifir bod 10,9 miliwn o wartheg a defaid, a fydd yn gostwng i 9.7 miliwn yn 2030. Dywedant y caiff y gostyngiad hwn ei yrru i raddau helaeth gan rymoedd y farchnad.

Mae ystadegau diweddaraf Arolwg Mehefin ar gyfer 2024 yn cadarnhau bod niferoedd da byw yng Nghymru eisoes yn is nag amcangyfrif UKCCC ar gyfer 2025. Yn wir, mae niferoedd da byw yn 2024 bron ar y lefel a awgrymwyd gan UKCCC ar gyfer 2030 o fewn eu Llwybr Cytbwys. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r arolwg mis Mehefin nesaf yn 2025 (a gaiff ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2025) a hefyd gyda'r Llywodraethau eraill drwy Grŵp Monitro Marchnad y DU.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) wedi'i gynllunio i ysgogi cynhyrchu cyfrifol, sydd yn ei dro yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi i fodloni safonau cynaliadwyedd. Nod yr SFS yw cefnogi Amaethyddiaeth Cymru i ddilyn arferion mwy cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu da byw.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

## Argymhelliad 5

Dylai HCC gyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru yn amlinellu cynnydd ar greu a chynnal diwylliant corfforaethol iach am y tair blynedd nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro’r diwylliant yn HCC a rhoi gwybod i’r Pwyllgor hwn a’i olynydd yn y Senedd nesaf am gynnydd HCC yn y maes hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae diwylliant corfforaethol iach yn hanfodol ar gyfer llwyddiant unrhyw sefydliad. Mae'n ennyn diddordeb, ac yn sbarduno cynhyrchiant, hapusrwydd a thwf refeniw. Mae HCC yn cynnal sawl menter i wella lles gweithwyr.

Cynhelir cyfarfodydd gweinidogol yn rheolaidd gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr HCC i drafod ystod eang o bynciau, gan gynnwys diwylliant sefydliadol.
Byddwn yn sicrhau bod 'diwylliant corfforaethol' yn eitem sefydlog ar agenda yn y cyfarfodydd Llywodraethu chwarterol, y gellir ei fonitro'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Argymhelliad 6

Mae gan HCC gylch gwaith eang iawn, fodd bynnag, mae’r Pwyllgor yn credu bod yn rhaid i HCC gyfeirio ei waith i gyd-fynd â’i gyllideb lai. Er mwyn cyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol newydd, mesuradwy a thryloyw gyda HCC. Dylai Llywodraeth Cymru fesur cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn rheolaidd, a dylai canlyniad yr adolygiad hwnnw gael ei gyhoeddi mewn modd sy’n glir ac yn dryloyw i dalwyr yr ardoll a rhanddeiliaid eraill. Dylai’r Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd gynnwys dangosyddion sy’n:

- Gosod disgwyliadau clir ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid a thalwyr yr ardoll gan gynnwys cwrdd â thalwyr yr ardoll lle y maent a sicrhau gweledEdd clir a hygyrchedd staff HCC gan gynnwys uwch arweinwyr;
- Sicrhau y gwerth gorau i dalwyr yr ardoll ac unrhyw arian cyhoeddus ychwanegol efallai y bydd HCC yn ei gael; a
- Sicrhau canlyniadau cryf o weithgareddau hyrwyddo sy’n cael eu mesur mewn ffordd glir ac agored.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi HCC i sicrhau ei fod yn parhau i wneud ei waith pwysig dros y sector cig coch yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy Aelodau ei Bwrdd, yn monitro dangosyddion perfformiad allweddol HCC yn rheolaidd o ran cyflawni a hefyd drwy'r cyfarfodydd Llywodraethu chwarterol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle ffurfiol i rannu gwybodaeth a sicrhau bod gwaith HCC yn cael ei fonitro a'i wneud yn effeithiol er

mwyn i HCC allu canolbwyntio'n gadarn ar roi gwerth eu harian i dalwyr ardollau ac ar hyrwyddo ein diwydiant cig coch.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda HCC i ddatblygu ei Weledigaeth ar gyfer 2026-2030. Ar y cyd â'r Weledigaeth, byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r cynllun busnes o fewn y fframwaith polisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gwmpasu cyfnod yr agenda strategol.

Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar gynllun gweithredol blynyddol a fydd yn egluro lefel y gwasanaeth sydd i'w gyrraedd mewn meysydd allweddol a'r wybodaeth am berfformiad ac allbynnau a gaiff eu casglu i fonitro cynnydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau eu bod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol (CAMPUS).

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad i nodi meysydd lle gallai HCC gynyddu cydweithio a/neu rannu adnoddau gyda byrddau ardoll eraill a sefydliadau datganoledig perthnasol eraill fel Cyswllt Ffermio. Dylai hyn gynnwys chwilio am feysydd lle gallant leihau dyblygu ymdrechion a manteisio ar arbedion maint posibl. Diben yr adolygiad hwn ddylai fod nodi meysydd lle gellid gwneud arbedion y gellir eu hailfuddsoddi ym musnes craidd HCC o hyrwyddo cig Cymru a datblygu'r sector cig coch. Ni ddylai'r adolygiad hwn fod yn gyfyngedig o ran cwmpas a rhaid iddo ymestyn y tu hwnt i rannu gwybodaeth syml i agweddau fel caffael ar y cyd a rhannu swyddogaethau swyddfa gefn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Gwrthod

**HCC a chyrff Ardoll eraill**

Mae HCC wedi meithrin perthynas ardderchog â'r byrddau ardoll eraill a thrwy barhau i gydweithio byddan nhw'n parhau i weithio gyda'i gilydd i ddwysáu gweithgarwch lle bo hynny'n berthnasol a chael mynediad at gyllid i sefydlu rhaglenni sy'n rhoi'r gwerth mwyaf am arian, hynny er lles y gadwyn gyflenwi gyfan.

Mae'r llythyr atodol a anfonwyd at Bwyllgor ETRA ar 30 Mai 2025, yn rhestru'r holl weithgareddau a phrosiectau cydweithredol rhwng y cyrff ardoll.

**Cyswllt Ffermio**

Mae cyflenwyr Cyswllt Ffermio wedi sefydlu partneriaethau effeithiol gyda HCC ar draws nifer o gontractau, gyda HCC yn cyflenwi gwybodaeth am y farchnad a Cyswllt Ffermio yn datblygu ymyriadau wedi'u targedu i alluogi cynhyrchwyr i fodloni gofynion proseswyr.
Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn caffael contract Cyswllt Ffermio newydd, a fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2026.

Yn ôl y fanyleb gaffael ddiweddaraf, mae'n ofynnol bod pob digwyddiad a menter yn ategu'r gweithgareddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ei chyrff noddedig, cyrff ardoll, a sefydliadau eraill y sector. Bydd angen tystiolaeth o sut y bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o unrhyw gynnig gan ddarpar gyflenwyr. Bydd disgwyl i'r ceisydd llwyddiannus sefydlu protocolau gweithio gyda'r grwpiau hyn i osgoi dyblygu o fewn unrhyw agwedd ar gyflenwi cyn i'r contract newydd ddechrau. Mae ceisio am y contract yn benderfyniad masnachol i sefydliadau, gan gynnwys HCC, ac efallai y bydd rhai yn dewis cydweithio fel consortiwm i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau.

Nid yw'n briodol cynnal adolygiad yn ystod y broses gaffael sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd a byddai'n well ei wneud yn amcan tymor hwy.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 8**

Rhaid i HCC sicrhau ei fod yn mesur effaith gweithgareddau hyrwyddo drwy ddata pendant a chymaradwy a fydd yn dangos canlyniadau nid gweithgareddau yn unig. Un opsiwn i gyflawni hyn fyddai adeiladu ar y gwaith y mae wedi'i wneud gyda manwerthwyr ar ddefnyddio data cardiau teyrngarwch i ddeall effaith uniongyrchol ei waith. Dylid cyfleu manylion y mesuriad hwn a'r canlyniadau mewn modd clir ac agored i dalwyr yr ardoll.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu'n benodol at HCC yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod ymgyrch integredig Cig Oen 2024-25 yn cyfuno cyfryngau teledu, digidol, cymdeithasol, y wasg a'r cyfryngau yn y siop i hybu ymwybyddiaeth o'r brand a gwerthiant, gan dargedu 62 o siopau yng Nghymru a De-ddwyrain Lloegr. Defnyddiodd yr ymgyrch offer mesur cadarn gan gynnwys arolygon YouGov Direct, astudiaeth codi brand Sky, a data gwerthiant Nectar360 i asesu ei effaith.

- **Defnydd integredig aml-sianel:** Gwnaeth yr ymgyrch gydweithio â Sky a Nectar360, gan ganolbwyntio ar 62 o siopau i gyd-fynd â chynnyrch Sainsbury's Taste the Difference, gan dargedu cwsmeriaid cig oen a phrynwyr cig gyda negeseuon wedi'u teilwra i ennyn cymaint o ddiddordeb â phosibl.

- **Mesuriadau cadarn a mewnwelediadau:** Olrhain effeithiolrwydd yr ymgyrch trwy banel YouGov o 3,000 o bobl ac astudiaeth codi brand Sky, gyda Nectar360 yn darparu data gwerthu newydd ar ôl yr ymgyrch, gan alluogi dadansoddiad manwl o ymddygiad defnyddwyr.

- **Twf sylweddol yn y gwerthiant:** Cynyddodd gwerthiant Cig Oen Cymru yng Nghymru 24% bob blwyddyn ar gyfer Medi a Hydref, gyda chyfanswm gwerthiant cig oen yn cynyddu 70% a 101%, tra gwelwyd cynnydd o 21% yn y siopau yn Lloegr gafodd eu targedu, gan ddangos ffrwyth cefnogaeth lwyddiannus mewn siopau.

- **Canfyddiadau defnyddwyr yn gwella:** Yng Nghymru, cododd ymwybyddiaeth o'r brand i 93%, gyda chynnydd mewn canfyddiadau ynghylch ansawdd, blas, iechyd a chynaliadwyedd; Gwelwyd twf mewn ymwybyddiaeth yn Lloegr hefyd gyda mwy yn prynu er gwaethaf llai yn adnabod y logo a llai o ganfyddiad am gynaliadwyedd.

Dros ymgyrch 2025-26 mae HCC yn adeiladu ar lwyddiant blaenorol. Mae ymgyrch integredig 2025-26 i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr yn cynnal yr amcanion presennol wrth barhau â phartneriaethau gyda Sky a Nectar360. Mae ychwanegiad newydd – AdMaxim – yn galluogi olrhain camau pobl yn fanwl gywir i siopau sy'n gwerthu Cig Oen Cymru, gan gryfhau cydweithrediad rhwng manwerthwyr a datgloi gwybodaeth ddyfnach.

Mae'r gwerthusiad eleni yn adlewyrchu methodoleg flaenorol, gan alluogi cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn. Erbyn diwedd yr ymgyrch, bydd data yn cynnwys tair blynedd o dracio'r brand trwy Sky, chwe blynedd o ddadansoddiadau am y brand, a dwy flynedd o ddata gwerthiant gyda manwerthwr penodol - gan ffurfio sylfaen gref ar gyfer dadansoddi strategol hirdymor.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

**Argymhelliad 9**

Rhaid i Lywodraeth Cymru a HCC sicrhau bod lleisiau'r diwydiant yn cael eu cynrychioli'n dda yn eu gwaith i ddiweddaru Cytundeb Fframwaith HCC. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r diwydiant 'lle y maent' i sicrhau ei bod yn clywed pob llais, nid dim ond y rhai sydd â'r amser a'r gallu i ymgysylltu'n hawdd â Llywodraeth Cymru

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Gwrthod

Mae gan HCC a Llywodraeth Cymru ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau a'u cyfrifoldebau drwy'r Cytundeb Dirprwyo.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn drefniant mewnol rhwng Gweinidogion Cymru a HCC sy'n nodi'r fframwaith cyffredinol y mae HCC yn gweithredu ynddo, yn disgrifio o dan ba delerau ac amodau y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau i'r HCC ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a HCC a'r berthynas rhyngddynt.

Mae'r Cytundeb Fframwaith a gyhoeddwyd ac y cytunwyd arno'n ddiweddar yn rhoi mwy o eglurder i rolau a chyfrifoldebau, yn benodol rhai Gweinidogion, Cadeirydd y bwrdd ac Aelodau'r bwrdd, y swyddog cyfrifyddu, y tîm Nawdd a'r Uned Cyrff Cyhoeddus.

Mae Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol presennol Sector Cig Coch Cymru yn dod i ben yn 2025. Mae HCC yn cychwyn datblygu Gweledigaeth newydd, a fydd yn arwain y sector o 2026 hyd at 2030.
Ers penodi Prif Weithredwr newydd ym mis Ionawr 2025, mae cydweithio â'r diwydiant wedi bod yn brif flaenoriaeth. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith ymgysylltu sy'n cael ei wneud bob wythnos gan y sefydliad trwy sawl sianel sy'n

eiddo iddo, a rennir ganddo ac y telir amdanynt ganddo.

Cafodd yr ymgysylltiad gwell hwn ei ddatblygu fel rhan o ymgyrch ragweithiol sy'n canolbwyntio ar strategaeth y diwydiant yn y dyfodol (Gweledigaeth 2030). Dyma ei brif uchafbwyntiau:

- Cyfarfodydd un-i-un gyda sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys undebau ffermio, proseswyr a sefydliadau ehangach
- Presenoldeb HCC ledled Cymru mewn marchnadoedd da byw (cyfanswm o 16) i ymgysylltu'n uniongyrchol â thalwyr yr ardoll er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth HCC yn y dyfodol.
- 'Arolwg' ehangach o dalwyr yr ardoll fis Mai – Gorffennaf 2025
- 'Cais am farn' gan sefydliadau rhanddeiliaid a'r diwydiant ac yn ehangach am strategaeth ac anghenion y diwydiant yn y dyfodol.
- Cryfhau presenoldeb a rhyngweithio yn Sioe Frenhinol Cymru 2025 gyda phwyslais arbennig ar gasglu barn ar gyfer Gweledigaeth 2030.
- Bydd ymgysylltu gwell yn parhau dros 2025-26 wrth i HCC geisio cwblhau Gweledigaeth 2030. Ar ôl ei chwblhau, mae HCC am gynnal ymgyrch gyfathrebu integredig i lywio, fel partneriaid, y diwydiant wrth ei rhoi ar waith o fis Ebrill 2026 ymlaen.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

**Hybu Cig Cymru**
Meat Promotion Wales

**Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales**
Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, SY23 3FF

Ffôn/Tel: 01970 625 050
Ffacs/Fax: 01970 615 148
Ebost/Email: info@hybucig.cymru
Gwefan: hybucig.cymru

22 Hydref 2025

Annwyl Gadeirydd,

**Parthed: Ymchwiliad i gylch gwaith a chyllid Hybu Cig Cymru (HCC) gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

Fel Prif Weithredwr Hybu Cig Cymru hoffwn ddiolch yn swyddogol i aelodau'r pwyllgor am eu hamser yn cynnal ymchwiliad i gylch gwaith a chyllid y sefydliad.

Yn dilyn ymateb swyddogol gan Lywodraeth Cymru i argymhellion y pwyllgor, mi wnawn ni drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried y ffordd orau o ymateb i'r materion a amlygwyd.

Os gallaf gynorthwyo yn y dyfodol gydag unrhyw ymholiadau eraill, fel ein tystiolaeth ddiweddar i'r ymchwiliad Prosesu Bwyd, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



**José Peralta**
Prif Weithredwr

Mae Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales wedi gofrestru fel cwmni cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Rhif y Cwmni 4635113
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales is registered as a limited company. Registered in England and Wales. Company number 4635113
Registered office: Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i llythyr Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig Dyddiedig 17 Medi 2025

## Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf Rhanbarthol Cymru.

Isod ceir ymatebion Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion y Pwyllgor a nodir yn y llythyr dyddiedig 17 Medi 2025 ar Fargeinion Dinesig a Bargeinion Twf Rhanbarthol Cymru.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 3**

**2. Argymhellion ........ 4**

**3. Casgliadau ........ 11**

# 1. Cyflwyniad

Mae pedair bargen dinesig a bargen twf rhanbarthol yng Nghymru, sef Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; Bargen Ddinesig Bae Abertawe; Bargen Twf y Gogledd a Bargen Twf y Canolbarth.

Sicrwydd Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf:

Mae dau Fwrdd Llywodraeth; Bwrdd Llywodraeth Cymru, a Bwrdd Llywodraeth ar y cyd, sy'n cyfarfod bob chwarter i roi goruchwyliaeth a sicrwydd i Lywodraeth Cymru ar berfformiad yr holl Fargeinion Dinas a Thwf yng Nghymru.

## 2. Argymhellion

<u>Bargen Twf y Gogledd</u>

Wedi'i llofnodi yn 2020, mae Bargen Twf Gogledd Cymru 15 mlynedd, dan arweiniad Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, wedi cydnabod yr heriau y mae wedi'u hwynebu wrth gyflawni'r Fargen dros y pum mlynedd cyntaf.

**Argymhellion 1 ac 2:**

Sicrhau bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn monitro ac yn cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni'r fargen ond hefyd y bydd yr arian cyhoeddus sylweddol a ddyrannwyd i'r Fargen yn creu'r swyddi a'r buddsoddiad a fwriedir;

Nodi sut y byddant yn cefnogi ac yn monitro cynnydd gyda Bargen Twf y Gogledd yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

1. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ymgysylltu'n rheolaidd i ddarparu cefnogaeth i'r Swyddfa Rheoli Portffolio ac Uchelgais Gogledd Cymru wrth gyflawni'r Fargen. Cynhelir cyfarfodydd misol a chwarterol fel rhan o waith goruchwylio'r Fargen.

2. Mae gwaith o gyflawni'r fargen wedi'i ddatganoli'n llawn i Uchelgais Gogledd Cymru (ANW), sy'n atebol am ei Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'i Effeithiau, ond mae'r ddwy lywodraeth wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu'r amgylchedd a'r cymorth i alluogi ANW i gyflawni. Mae'r gefnogaeth a'r arweiniad yn cynnwys:
    a. Adolygiad a diweddariadau prosiectau rheolaidd ar lefel weithredol
    b. Mynediad at gymorth arbenigol, er enghraifft gwaith ar y cyd â thîm Eiddo Llywodraeth Cymru.
    c. Hyfforddiant Rheoli Rhaglenni.

3. Mae Bargen Dwf Gogledd Cymru yn cynnal adolygiad sicrwydd annibynnol blynyddol (PAR), y mae Llywodraethau'n ei ddefnyddio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth wrth asesu hyder cyflawni a pherfformiad ariannol.

**Argymhelliad 3:**
Cynnig eglurder brys ynghylch y cyllid sydd ar gael i Fargen Twf Gogledd Cymru

**Ymateb: Derbyn:**

4. O dan delerau'r Cytundeb y Fargen Derfynol, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu £120 miliwn yr un o gyllid drwy gydol oes y Fargen. Mae cymeradwyo rhyddhau cyllid y llywodraeth yn cael ei adolygu'n flynyddol ac yn amodol ar berfformiad y Fargen, a chanlyniad yr Adolygiad Sicrwydd blynyddol annibynnol. Yn ogystal â chyllid y Llywodraeth, mae'r Fargen wedi ymrwymo i sicrhau £750 miliwn ychwanegol o gyllid buddsoddi preifat ac eraill dros y 15 mlynedd.

5. Hyd yn hyn mae Llywodraethau wedi cymeradwyo rhyddhau 3 blynedd o gyllid blynyddol i'r Fargen ac wedi sicrhau bod digon o gyllid i dalu ymrwymiadau Bargen Twf Gogledd Cymru gyda chronfeydd wrth gefn sylweddol o fewn cyfrifon y fargen.

6. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, canfu'r Adolygiad Sicrwydd blynyddol annibynnol fod amheuon a ellid cyflawni'r prosiect/rhaglen yn llwyddiannus ac roedd problemau mawr yr oedd angen eu datrys. O ganlyniad i'r asesiadau hyn, a diffyg gwariant gan y Fargen, cytunodd y ddwy lywodraeth na ellid rhyddhau'r cyllid blynyddol ar yr adeg honno.

7. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r Fargen a'i phartneriaid ar ei gofynion cyllido ar gyfer y dyfodol, gan ddiogelu'r pwrs cyhoeddus, a sicrhau bod Bargen Twf Gogledd Cymru yn cyflawni'r buddsoddiad a'r effaith yr ydym i gyd wedi ymrwymo iddo.

**Argymhelliad 4.**

Archwilio pa wersi y gellir eu dysgu o fethiant prosiect Trawsfynydd ac effaith hynny ar y Fargen.

**Ymateb: Derbyn:**

8. Mae Bargen Twf Gogledd Cymru yn Bortffolio o brosiectau a reolir gan y Fargen. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r camau a gymerwyd yn ddiweddar gan y Fargen i adolygu ei phortffolio a chreu rhestr wrth gefn i alluogi ymateb cyflymach rhag ofn na fydd prosiect yn symud ymlaen neu na fydd yn symud ymlaen o fewn oes y Fargen, fel prosiect Trawsfynydd.

<u>Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd</u>

Creu Swyddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

**Argymhelliad 5:**

Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod targedau creu swyddi clir ar gyfer rhannau’r Metro a Chronfa Fuddsoddi Ehangach y Fargen Ddinesig.

**Ymateb: Derbyn**

9. Mae Cronfa Fuddsoddi Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) yn gronfa gwerth £1.229 biliwn sy'n cynnwys swm o £734 miliwn wedi'i ddyrannu ymlaen llaw i'r Prosiect Metro a £495 miliwn i'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach (WIF). Mae'r prosiect Metro yn rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n ddarostyngedig i'w threfniadau llywodraethu ei hun.

10. Ar wahân, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n gyfrifol am gyflawni canlyniadau ar gyfer elfen WIF y CCRCD. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa hon. Mae'r Fframwaith Penawdau’r Telerau a Sicrwydd ar gyfer y WIF sy'n bodoli yn pennu metrigau ar gyfer y CCRCD y cytunwyd eu bod yn gyraeddadwy pan gytunodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deg arweinydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn 2016. Mae hyn yn cynnwys creu 25,000 o swyddi newydd.

11. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon y Pwyllgor. Os yw Prifddinas Ranbarth-Caerdydd o'r farn nad yw'r metrig swyddi, a'r metrig buddsoddi sector preifat o £4bn, fel y'i codwyd gan y Pwyllgor, bellach yn gyraeddadwy ar gyfer elfen WIF y Fargen dros ei hoes, bydd y Llywodraeth yn gweithio ar y cyd â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ystyried a chytuno ar fetrigau diwygiedig. Bydd y Llywodraeth, trwy'r trefniadau Llywodraethu sefydledig ar gyfer y CCRCD, sy'n cynnwys adrodd yn chwarterol am gynnydd, yn gweithio i geisio gwybodaeth fanylach.

**Argymhelliad: 6**

Sicrhau bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn monitro cyhyd ag y gall lle mae swyddi’n cael eu creu er mwyn sicrhau nad ydynt yn ffafrio neu'n esgeuluso gwahanol rannau o’r Rhanbarth yn anghymesur ar ddamwain.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

12. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn darparu data am swyddi i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r trefniadau llywodraethu parhaus. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad ar draws swyddi uniongyrchol, anuniongyrchol a swyddi adeiladu a grëwyd, ynghyd â phrentisiaethau, swyddi wedi'u diogelu a chyflogaeth i raddedigion. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i geisio rhagor o fanylion i gefnogi, lle bo hynny'n bosibl, gwell tryloywder ar ble ar

draws ardal y Rhanbarth neu'r Awdurdod Lleol y mae'r swyddi hyn, a bod y wybodaeth hon yn cael ei hadrodd yn rheolaidd.

Prifddinas Ranbarth-Caerdydd: Aberddawan

**Argymhelliad: 7**

Ceisio eglurhad gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ynghylch yr amcangyfrif diweddaraf o gyfanswm costau datblygu prosiect Aberddawan, gan gynnwys o ble maent yn gweld y buddsoddiad hwn yn dod, a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor.

**Ymateb: Derbyn**

13. Ein dealltwriaeth yw bod y £38m o arian CCRCD a ddyrannwyd ar gyfer safle Gorsaf Bŵer Aberddawan ar gyfer caffael, dymchwel ac adfer rhannol yn unig, gyda chynlluniau i geisio buddsoddiad gan y sector preifat i sicrhau bod y safle yn cyrraedd ei lawn botensial ac yn cyflawni uchelgeisiau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gwaith dymchwel yn mynd rhagddo ac mae Uwchgynllun pellach yn cael ei ddatblygu.

14. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn darparu gwybodaeth am gynnydd a chostau mewn perthynas â safle Gorsaf Bŵer Aberddawan drwy'r trefniadau adrodd chwarterol, a sefydlwyd fel rhan o'r trefniadau Llywodraethu ar gyfer CCRCD. Yn ogystal â hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd yn rheolaidd ac yn derbyn diweddariadau'n uniongyrchol gan CCR Energy Limited, sydd wedi'i sefydlu i fod yn berchen ar, ac arwain y gwaith o ddymchwel, adfer a datblygu'r safle yn y dyfodol.

**Argymhelliad: 8**

Monitro'r gwariant ar Aberddawan yn ofalus i sicrhau'r gwerth gorau am arian ac nad yw'r prosiect yn dod yn fenter gwastraffus sy'n amsugno arian cyhoeddus heb reolaeth neu'n un sy'n taflu arian da ar ôl arian drwg.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

15. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithredu'n annibynnol yn ei benderfyniadau buddsoddi, a mater i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yw sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy drefniadau Llywodraethu a Bwrdd Buddsoddi Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru ei hun, fel Corff Atebol ar gyfer CCRCD. Fel uchod, drwy'r trefniadau adrodd chwarterol, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn darparu gwybodaeth ariannol a chyflenwi lefel uchel i Lywodraethau'r

DU a Llywodraethau Cymru ar draws eu portffolios Rhaglenni a Phrosiectau gan gynnwys rheoli risg ac adrodd ar fetrigau.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

**Argymhelliad: 9**

Barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar yr amodau gwahanol sydd gan gytundebau Bae Abertawe a Phrifddinas Ranbarth Caerdydd ac unrhyw ystyriaethau posibl ynghylch hyn yn y dyfodol

**Ymateb: Derbyn**

16. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai o dan wahanol gynlluniau Llywodraeth y DU y cytunwyd ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac felly bod ganddynt delerau a strwythurau llywodraethu gwahanol. Ymrwymwyd yr holl gyllid cyfalaf ymlaen llaw ar gyfer Bargen Bae Abertawe, a lofnodwyd yn 2017, a diffiniwyd portffolio o brosiectau yn glir o'r cychwyn cyntaf.

**Argymhelliad: 10**

Safbwynt Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar effaith chwyddiant ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a'r tair bargen arall yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw gyllid ychwanegol y gallent ei gyflenwi neu fesurau lliniaru y gallent eu gwneud i dargedau cyflawni.

**Ymateb: Derbyn**

17. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r pwysau chwyddiant sy'n effeithio ar waith cyflawni Bargeinion Dinesig a Thwf ledled Cymru. Yn achos Bargen Ddinesig Bae Abertawe, mae rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y fargen dros y tymor 15 mlynedd wedi ei gyfrannu ar ddechrau'r tymor hwnnw.

Bargen Twf y Canolbarth

**Argymhelliad: 11**

Nodi unrhyw safbwyntiau sydd gan y llywodraethau ar y penderfyniad i beidio â throsglwyddo rheolaeth Bargen Twf Canolbarth Cymru i'w Chyd-bwyllgor Corfforaethol.

**Ymateb: Derbyn**

18. Mae datblygu economaidd, trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir wedi'u halinio yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sy'n rhoi cyfle i gyfuno adnoddau ac ystyried a manteisio ar ryngddibyniaethau y swyddogaethau hyn ar raddfa ranbarthol. Gyda'r

uchelgais iawn, rydym yn dal i fod o'r farn y gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddod yn ganolbwynt ar gyfer sicrhau llesiant economaidd rhanbarthol yn gyflym.

19. Mater i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig yw adlewyrchu sut maent yn diwallu anghenion ac uchelgeisiau lleol ar y cyd o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Rydym wedi croesawu'r ffaith fod Cyd-bwyllgorau Corfforedig De-ddwyrain a Gogledd Cymru yn datblygu eu gweithgarwch datblygu economaidd ymhellach trwy 'godi a symud' eu bargeinion dinesig neu dwf i fecanwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin yn ystyried gwneud hynny, ac mae Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru yn creu aliniadau dyfnach.

**Argymhelliad: 12**

Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i fonitro'r dull llywodraethu gwahanol hwn ar gyfer Canolbarth Cymru o'i gymharu â'r tair bargen arall i weld a oes unrhyw fanteision neu anfanteision clir rhwng y dulliau.

**Ymateb: Derbyn**

20. Mae'r ddwy Lywodraeth yn mynnu bod gan bob Bargen strwythurau llywodraethu da ar waith i ddarparu sicrwydd ar weinyddiaeth effeithiol ac effeithlon y Fargen. Rydym yn parhau i fonitro'r trefniadau llywodraethu cymharol ar gyfer pob un o'r Bargeinion Dinesig a Thwf a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'u Cyd-bwyllgor Corfforedig priodol.

21. Nid yw Bargen Twf De-orllewin Cymru eto wedi dewis uno eu Bargen Ddinesig yn ffurfiol â mecanwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**Argymhelliad: 13**

Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau bod yr heriau unigryw sy'n wynebu Bargen Twf Canolbarth Cymru, megis amrywiaeth economaidd a mynediad at fuddsoddiad sector preifat fel yr amlinellwyd yn eu tystiolaeth, yn cael eu hystyried mewn unrhyw waith parhaus gyda'r ddwy lywodraeth a'r gefnogaeth a gynigir ganddynt i'r Fargen.

**Ymateb: Derbyn**

22. Yng Nghanolbarth Cymru, mae'r partneriaid rhanbarthol wedi sefydlu Cyd-bwyllgor rhwng yr awdurdodau lleol priodol (gyda seilwaith ategol ychwanegol sy'n cynnwys Bwrdd Cynghori Economaidd a Bwrdd Rheoli dan arweiniad y sector preifat sy'n cynnwys uwch swyddogion) at y diben hwn ac i gyflawni'r swyddogaethau angenrheidiol.

23. Mater i'r partneriaid lleol fu penderfynu ar union natur y gwaith llywodraethu. Mae effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu rhanbarthol yn cael ei adolygu fel rhan o'r adolygiadau sicrwydd rheolaidd a gynhaliwyd (trwy PARs) a byddwn yn parhau i fonitro'n rheolaidd, gan gynnwys unrhyw argymhellion y maent yn eu gwneud yn hyn o beth.

**Argymhelliad: 14**

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio gyda'r pedair bargen twf i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod arferion gorau'n cael eu rhannu i gefnogi'r bargeinion wrth bontio rhwng newidiadau arweinyddiaeth wleidyddol.

**Ymateb: Derbyn**

24. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob Bargen i ymgysylltu â'i gilydd i rannu dysgu ac arferion gorau.

25. Mae pob Bargen yn ymgysylltu â Hyb Sicrwydd Integredig Cymru, sef y corff arweiniol yng Nghymru sy'n cynnal Adolygiadau Sicrwydd ar Fargeinion Dinesig a Thwf yng Nghymru.

26. Dros y pum mlynedd diwethaf mae Swyddfa Datblygu Prosiectau Llywodraeth Cymru wedi cynnal digwyddiadau rhwydwaith ar gyfer partneriaid yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Bargeinion, i rannu profiad ac arferion gorau ar fabwysiadu a chymhwyso Methodoleg Achos Busnes Gwell.

# 3. Casgliadau

27. Y sefydliadau rhanbarthol perthnasol sydd â'r cyfrifoldeb o gyflawni'r Bargeinion Dinesig a Thwf.

28. Fel cyllidwyr, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn mynnu bod gan bob Bargen strwythurau llywodraethu cryf i ddarparu sicrwydd ar oruchwyliaeth effeithiol a gweinyddu cyllidol y Bargeinion.

29. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddog arweiniol rhanbarthol ar gyfer pob Bargen Ddinesig a Thwf sy'n cynnal cyswllt rheolaidd, ffurfiol ac anffurfiol i gefnogi ac ymateb i newidiadau a fydd yn digwydd dros oes pob un o'r Bargeinion.

Wales Office
Swyddfa Cymru

**Anna McMorrin MP**
UK Government Minister for Wales
Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Ref: 016UKGM25

**Andrew RT Davies MS**
Chair: Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Senedd Cymru
The Senedd Pierhead St
Cardiff
CF99 1SN

27 October 2025

Dear Andrew,

**RE: Welsh City and Regional Growth Deals**

Thank you for your correspondence on behalf of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee regarding the performance and future of the Welsh City and Regional Growth Deals.

The four Welsh Growth Deals - Cardiff Capital Region City Deal, Swansea Bay City Region Deal, Mid Wales Growth Deal, and North Wales Growth Deal - represent a landmark collaboration between governments, local authorities, and regional stakeholders. These Deals are designed to deliver long-term, transformational economic change through large-scale capital investments. While these investments take time to reach full maturity, they have already delivered thousands of jobs and significant projects across Wales.

The UK and Welsh Governments have each committed substantial funding to these Deals and jointly monitor their progress through established governance mechanisms, including quarterly oversight boards and annual assurance reviews. We remain committed to supporting the Deals in delivering investment where it is most needed.

In line with the Welsh Government's response, we remain committed to working collaboratively to ensure the Growth Deals deliver maximum benefit for communities across Wales. Both governments have provided the necessary tools to support delivery, and we continue to monitor progress closely to ensure that performance improves where needed.

We acknowledge the Committee's concerns regarding the North Wales Growth Deal. Both governments have taken steps to improve delivery, including appointing Non-Executive Directors and a senior investment specialist to strengthen governance and bring private sector expertise. We continue to engage regularly with Ambition North Wales and the Portfolio Management Office to provide support and oversight. I recently met with the Chair of the Deal this week to receive an update and to re-emphasise the need for rapid progress with delivery. Funding decisions are made annually based on performance and assurance outcomes, and we are working closely with partners to ensure future funding aligns with delivery expectations.

Wales Office
Swyddfa Cymru

**Anna McMorrin MP**
UK Government Minister for Wales
Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Ref: 016UKGM25

Regarding the Cardiff Capital Region, we recognise the importance of clear job creation metrics and transparency in delivery. The Welsh Government is working with CCR to review and, if necessary, revise these metrics to reflect current conditions. We also support efforts to monitor job distribution across the region to ensure equitable outcomes. On the Aberthaw project, we welcome CCR's steps to clarify development costs and secure private investment, and we continue to monitor spending to ensure best value for public money. The innovative Wider Investment Fund is already delivering returns, which is encouraging.

For the Swansea Bay City Deal, we acknowledge the distinct governance and funding structures compared to other Deals and are mindful of inflationary pressures affecting delivery. However, we welcome the work by the Deal to mitigate these issues through innovative value engineering within their projects and programmes. We remain open to discussions on mitigation strategies and additional support where appropriate.

In Mid Wales, we respect the decision not to transfer management of the Growth Deal to the Corporate Joint Committee and continue to monitor governance effectiveness. We are committed to supporting the region's unique challenges, including economic diversity and access to private investment. It is encouraging to see the Deal move swiftly into delivery, applying lessons learned from other Welsh Growth Deals to maximise impact.

Both governments encourage collaboration and knowledge sharing across all Deals to ensure lessons are learned and best practices adopted, especially during transitions in political leadership.

We welcome the Committee's engagement on this important agenda. Economic growth remains our top priority, and we expect each City and Growth Deal to deliver meaningful outcomes for the people of Wales.

Yours sincerely,

**Anna McMorrin MP**
UK Government Minister for Wales
Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru

UK Statistics Authority

Government Buildings
Cardiff Road
Newport
NP10 8XG

Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Caerdydd
Casnewydd
NP10 8XG

Andrew RT Davies MS
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

28 October 2025

Dear Mr Davies,

As Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee, the Office for National Statistics (ONS) and Government Statistical Service (GSS) would welcome your contribution to two consultations launched today.

The ONS has launched the Census 2031 topic consultation, asking for your views about the topics you think should be included in the next census. For more than two centuries, a decennial census has provided information about the population and housing, helping to inform decisions about public services and to better understand the economy, public health and inequality. While the core topics of age, education and jobs have remained the same over time, other topics such as armed forces veterans have been added based on the needs of users. This 14-week consultation will provide evidence to inform what topics will be included in the next census of England and Wales in 2031.

The GSS has also launched a consultation asking for your views on additional response options for ethnicity data. The GSS would like to understand your needs for data on additional ethnic groups, with the goal of making the harmonised ethnicity standard more inclusive.

Responses submitted over the 14-week period will feed into a new standard for ethnicity data collection, which will be recommended for use by collectors of ethnicity data across the GSS, including teams working on future censuses.

We would welcome your contributions to these consultations before they close on 4 February 2026. You can respond to the consultation in Welsh or English.

Both consultations are live on the ONS consultations web page.

Yours sincerely,

**Emma Rourke, Acting National Statistician & Darren Tierney, Permanent Secretary, Office for National Statistics**

# Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE

Hoffwn ddiolch i'r pedwar pwyllgor am y gwaith a wnaed ganddynt i lunio'r argymhellion hyn.

Yr Undeb Ewropeaidd yw ein partner masnachu agosaf a mwyaf, ac mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) yn llywodraethu'r berthynas rhwng y DU a'r UE.

Fodd bynnag, nid yw'r cytundeb yn disodli'r mynediad i'r farchnad a oedd gan y DU fel aelod o'r UE mewn modd 'tebyg am debyg', ac o'r herwydd mae wedi creu rhwystrau i fusnesau Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi dadlau dros gysylltiad agosach â'r UE. Mae cyhoeddi "Common Understanding" rhwng y DU a'r UE ym mis Mai 2025 yn rhoi cyfleoedd i agor trafodaethau, ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE a lleihau rhwystrau i fusnesau Cymru.

Mae'r trafodaethau hyn, ac adolygiad y TCA, yn negodiadau sydd ar y gweill ac mae'r hyn y gellir ei nodi a'i drafod yn gyhoeddus o reidrwydd yn gyfyngedig oherwydd sensitifrwydd ynghylch trafodaethau rhyngwladol.

# Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

## Argymhelliad 1.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru ac yn adolygu ei blaenoriaethau wrth i drafodaethau ddatblygu ac wrth i amgylchiadau newid. Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru blaenoriaethau'r UE ac yn ystyried unrhyw effaith bosibl ar Gymru fel rhan o'r gwaith parhaus hwn.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 2.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes berthynas weithredol â llawer o sefydliadau'r UE, a byddwn yn parhau i gryfhau'r rhain wrth i'n gwaith fynd rhagddo. Mae'r cysylltiadau hyn wedi datblygu drwy'r gwaith a wnaed gan ein swyddfa ym Mrwsel a'n Cynrychiolydd penodedig ar gyfer Ewrop fel rhan o gylch gwaith cyflawni ein Strategaeth Ryngwladol, sy'n cynnwys ein perthynas ag Ewrop a'r UE. Dylai ffocws a sylfaen unrhyw ddatblygiadau yn y berthynas â'r UE fod ar ail-greu perthynas sy'n gweithio i'r ddwy ochr ac mae hyn eisoes yn digwydd. Wrth i'r Strategaeth Ryngwladol bresennol ddod i ben, ac wrth i ni symud i gyfnod newydd yn y berthynas rhwng Cymru a'r UE, byddwn yn ystyried a oes angen Strategaeth bwrpasol ar yr UE fel rhan o'n gwaith ehangach ar ein hagwedd at gysylltiadau rhyngwladol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 3.

Ymateb: Derbyn

Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau nad yw'n mynd ati i geisio hawliau cyfranogiad llawn mewn cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE lle mae ganddi statws sylwedydd. Nid yw'r UE yn caniatáu i lywodraethau datganoledig gael hawliau cyfranogi. Mae hyn yn debyg i Aelod-wladwriaethau unigol yr UE sydd hefyd â statws sylwedydd. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau ein bod yn parhau i

ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y pwyllgorau sy'n dod o fewn fframwaith sefydliadol y TCA, er mwyn sicrhau bod ein buddiannau'n cael eu cynrychioli yn y cyfarfodydd hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am bresenoldeb mewn unrhyw gyfarfodydd perthnasol rhwng y DU a'r UE sydd y tu allan i fframwaith sefydliadol y TCA, lle rydym yn credu bod hyn yn briodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 4.

Ymateb: Derbyn

Roedd ein Cynllun Cyflawni Rhyngwladol 2025 yn ailddatgan ein hymrwymiad i ymgysylltu Ewropeaidd a'r flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi ar weithio gyda Llywodraeth y DU ar ei huchelgais i ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE.  Rydym yn parhau i geisio defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i annog Llywodraeth y DU a'r UE i leihau'r anawsterau a wynebir gan weithwyr yn y sector creadigol. Yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 23 Medi 2025, cododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio fater artistiaid teithiol a phwysigrwydd dod o hyd i ateb ar eu cyfer.

Rydym yn croesawu'r bwriad diweddar i ail-osod cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a chyhoeddi Cytundeb "Common Understanding" rhwng y DU a'r UE. Rydym yn croesawu'n arbennig y cyhoeddiad a wnaed gan lywodraethau'r DU a'r UE yn yr uwchgynhadledd ar 19 Mai i sefydlu ymrwymiad ar y cyd i negodi cynllun profiad i bobl ifanc. Credwn y gallai cynllun o'r fath fod o fudd i artistiaid ifanc, gan mai artistiaid iau, llai sefydledig ar y cyfan sy'n wynebu'r heriau mwyaf wrth deithio gyda chostau uwch, terfynau amser a biwrocratiaeth o ganlyniad i ymadael â'r UE.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 5.

Ymateb 5: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i annog Llywodraeth y DU a'r UE i leihau'r anawsterau a wynebir gan weithwyr yn y sector creadigol, yn enwedig artistiaid teithiol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth y DU a'r UE, i sicrhau bod buddiannau gweithwyr creadigol Cymru yn cael eu cynrychioli a'u datblygu. Rydym yn cydnabod bod angen trafodaethau pellach am gefnogi artistiaid teithiol a byddwn yn parhau i godi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU. Yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 23

Medi 2025, cododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio fater artistiaid teithiol a phwysigrwydd dod o hyd i ateb ar eu cyfer.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 6.

Ymateb: Derbyn

Roedd y Datganiad ysgrifenedig[1] a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn dilyn uwchgynhadledd yr UE ym mis Mai, yn nodi ein huchelgais i Gymru gymryd rhan mewn ystod ehangach o raglenni'r UE, gan gynnwys Erasmus+, yn ogystal â chael mynediad at raglenni eraill yr UE fel Ewrop Greadigol a Chydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 7.

Ymateb: Derbyn

Mae mynediad at raglenni ychwanegol yr UE, fel Erasmus+ ac Ewrop Greadigol, yn flaenoriaeth yr oeddem yn ei phwysleisio'n rheolaidd gyda Llywodraeth y DU cyn uwchgynhadledd mis Mai. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y DU a'r UE wedi cytuno i weithio tuag at gydgysylltiad â'r rhaglen Erasmus+ a'u bod yn gweithio'n ddwys gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn y trafodaethau hyn a'r meysydd cydweithredu eraill y cytunwyd arnynt fel rhan o'r "Common Understanding".

Ni allwn roi sylwadau ar y trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y DU a'r UE cyn Uwchgynhadledd mis Mai. Rydym yn nodi ac yn croesawu'r ymrwymiadau yn Natganiad Gwleidyddol ar y Cyd yr Uwchgynhadledd ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd i ystyried buddiannau strategol ar y cyd a sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithredu yn y dyfodol. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gynnwys mynediad at raglenni ychwanegol yr UE, fel Ewrop Greadigol, fel blaenoriaeth ar gyfer trafodaethau rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 8.

Ymateb: Derbyn

[1] Datganiad Ysgrifenedig: Uwchgynhadledd yr UE-DU (19 Mai 2025) LLYW.CYMRU

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn cyfeirio at adolygiad gweithredu'r TCA, mae'r testun sy'n ymwneud â'r adolygiad yn destun safonol a ddefnyddir yn gyffredin gan yr UE yn ei gytundebau masnach. Nid yw adolygiadau a gynhaliwyd o dan y cytundebau hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol i'r cytundebau perthnasol yn y gorffennol.

Mae'r Cytundeb "Common Understanding", y cytunwyd arno ym mis Mai 2025, yn gytundeb fframwaith sy'n nodi meysydd lle mae'r DU a'r UE yn ceisio cydweithio agosach. Mae'r trafodaethau ar gyfer y gwaith hwn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac maent ar wahân i'r adolygiad o'r TCA. Gan fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, ni allwn roi sylwadau ar yr hyn a allai gael ei gynnwys mewn unrhyw gytundeb terfynol ac a allai'r cytundeb terfynol hwn arwain at ddiwygiadau i'r TCA.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 9.

Ymateb: Derbyn

Mater wedi'i gadw'n ôl i Lywodraeth y DU yw'r penderfyniad i ailymuno â rhaglenni'r UE megis Erasmus+ ac Ewrop Greadigol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei chyfrifiadau cost ei hun ar gyfer ailymuno â'r rhaglenni hyn, ac nid yw ychwaith wedi cymryd rhan mewn unrhyw ymarfer ledled y DU i wneud hynny.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo—drwy'r "Common Understanding" gyda'r UE—i weithio tuag at ail-ymuno ag Erasmus+, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â'r Adran Addysg (DfE) ar yr ymdrech hon.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfleu'n glir i Lywodraeth y DU ei dymuniad i gymryd rhan mewn ystod ehangach o raglenni'r UE, gan gynnwys Ewrop Greadigol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

# Ymatebion i Argymhellion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

## Argymhelliad 10.

Ymateb: Gwrthod

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '*Y berthynas newydd â'r UE: Beth mae'n ei olygu i Gymru* yn 2021[2]. Mae'r dogfennau 'persbectif' wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer cytundebau masnach sydd newydd gael eu llofnodi er mwyn rhoi trosolwg o'r effeithiau posibl ar Gymru. Mae'r TCA wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac mae dadansoddiad o'i effeithiau eisoes ar gael. Dylid nodi hefyd y bydd canlyniadau posibl unrhyw drefniadau newydd gyda'r UE fel rhan o drafodaethau sydd ar y gweill yn golygu y bydd unrhyw adroddiad yn dyddio bron ar unwaith. Os cytunir ar drefniadau newydd gyda'r UE, byddwn yn cyhoeddi ein safbwyntiau ar y rhain bryd hynny.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 11.

Ymateb: Gwrthod

Cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn ymateb i gyhoeddiadau a wnaed yn Uwchgynhadledd y DU a'r UE ym mis Mai, gan gynnwys lle'r oedd y cyhoeddiadau'n cynrychioli blaenoriaethau lefel uchel Llywodraeth Cymru, er enghraifft ar geisio Cytundeb SPS, cydweithredu ar ynni, alinio Cynlluniau Masnachu Allyriadau, Symudedd Ieuenctid ac Erasmus+. Fodd bynnag, mae ein blaenoriaethau manylach ar y meysydd hyn yn rhan o drafodaethau parhaus rhwng y DU a'r UE ac ni allwn roi sylwadau ar drafodaethau sydd ar y gweill. Mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â Llywodraeth y DU ac mae'n parhau i nodi ei blaenoriaethau.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 12.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi galw ar y DU a'r UE i wella ei pherthynas fasnachu. Yr UE yw ein partner masnachu pwysicaf ac mae unrhyw gamau i leihau gwrthdaro masnachu i'w croesawu. Darperir diweddariadau yn ystod ymddangosiadau rheolaidd Ysgrifennydd y Cabinet gerbron y Pwyllgorau.

Goblygiadau Ariannol: Dim

---

[2] Y berthynas newydd â'r UE: Beth mae'n ei olygu i Gymru | LLYW.CYMRU

## Argymhelliad 13.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae cyfarfodydd rhynglywodraethol yn fforymau ar gyfer trafod y negodiadau masnach gweithredol. Rydym yn dilyn y broses o roi gwybod i bwyllgorau pryd fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal a beth sy'n cael ei drafod. Er ein bod yn gyfyngedig o ran cynnwys gwybodaeth sensitif, mae hyn yn cynnwys y pwyntiau allweddol a drafodwyd yn y cyfarfodydd.

Mae'r gwahanol bwyllgorau a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn aml yn fforwm gwell i drafod rhwystrau masnach presennol ac mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i'r pwyllgorau hyn ar rwystrau masnach. Cyhoeddir cofnodion pwyllgorau gan y DU a'r UE yn unol â hynny.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 14.

**Ymateb**: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen diweddaru cymorth ac iddo fod yn benodol; fodd bynnag, mae'r adolygiad o'r TCA, sydd i fod i gael ei gynnal yn 2026, a'r trafodaethau gweithredol ar gyfer y "common understanding" sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, yn newidynnau a allai ddylanwadu ar sut bydd trin nwyddau a gwasanaethau'n cael ei ystyried, felly mae'n ddoeth monitro'r trafodaethau hyn yn weithredol a theilwra cymorth ac arweiniad pan fydd gwybodaeth ar gael.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 15.

**Ymateb**: Derbyn

Gan nad yw'r gwaith o drafod elfennau o'r "Common Understanding", fel cytundeb SPS posibl, wedi'i gwblhau eto, mae'n amhosibl i ni ddweud a fydd angen ail-negodi cytundebau masnach y tu allan i'r UE ar gyfer unrhyw gytundebau terfynol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 16.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd strategol y cytundeb SPS ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod proffil masnach unigryw Cymru, a'i chyfrifoldebau datganoledig, yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU. Rydym yn parhau i gefnogi safbwynt Llywodraeth y DU wrth geisio cael cytundeb SPS gyda'r UE.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu gwreiddio mewn trafodaethau SPS. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r ymgysylltu rheolaidd ar lefel swyddogol sydd eisoes ar waith a sicrhau bod ymgysylltu Gweinidogol yn digwydd mewn ffordd sy'n adlewyrchu cyflymder unrhyw negodiadau.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 17.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae rôl Llywodraeth Cymru yn y mecanwaith ymgynghori cynnar yn destun trafodaeth yn y trafodaethau "Common Understanding" rhwng y DU a'r UE sydd ar y gweill ac ni allwn roi sylwadau ar negodiadau byw; byddwn yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am rôl o'r fath cyn gynted â phosibl.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 18.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Nododd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig safbwynt Llywodraeth Cymru ar Safleoedd Rheolaethau'r Ffin (BCP) yng Nghymru a'r datganiad hwn (a amlygir o dan baragraff 154) yw'r sefyllfa bresennol o hyd. Gwnaed y penderfyniad i ohirio gweithredu trefniadau Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) gan Lywodraeth y DU sydd wedi nodi y bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu. Gan weithio gyda chydweithwyr yn llywodraethau'r DU a'r Alban, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu goblygiadau cytundeb SPS ar safleoedd rheolaethau'r ffin. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor fel y bo'n briodol ond, er bod y trafodaethau'n dal yn fyw, ni fyddai adolygiad chwarterol yn briodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 19.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru, o fewn terfynau'r hyn sy'n bosibl i adrodd arno yn ystod negodiadau byw, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am gynnydd trafodaethau rhwng y DU a'r UE yn ystod ymddangosiadau rheolaidd Ysgrifennydd y Cabinet gerbron y pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 20.

**Ymateb:** Derbyn

Ar hyn o bryd, nid yw'r UE yn credu bod gwerth cyfatebol mewn negodi Cytundeb Cydnabyddiaeth Gilyddol (MRA) ar asesu cydymffurfiaeth â'r DU ac, o'r herwydd, nid oedd wedi'i gynnwys fel rhan o'r "Common Understanding". Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar y DU a'r UE o ran gwerth MRA i'w gynnwys yng nghyhoeddiadau Uwchgynhadledd y DU-UE yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 21.

**Ymateb:** Derbyn:

Oherwydd diffyg data masnach manylach ar gyfer Cymru, nid yw'n bosibl pennu gwerth masnach mewn pysgod cregyn rhwng Cymru a'r UE ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae data cyhoeddedig CThEM yn dangos bod gwerth £9.3m o allforion bwyd môr (y mae pysgod cregyn yn rhan ohonynt) o Gymru i'r UE yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025. Mae hyn yn sylweddol is na'r £23.5m a allforiwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2015.

Mae ystadegau ar gynhyrchu dyframaeth yng Nghymru rhwng 2012 a 2023 yn cael eu datblygu ar hyn o bryd fel rhan o Fframwaith Casglu Data'r DU. Gan fod y rhain yn Ystadegau Swyddogol sy'n cael eu datblygu, ni allwn eu rhannu nes iddynt gael eu cyhoeddi. Pan fydd y data ar gael, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad i'r pwyllgor yn ôl y gofyn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 22.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cael trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â rheolau tarddiad. Credwn y dylai'r DU geisio agor trafodaethau i ymuno â Chonfensiwn Môr y Canoldir ar draws Ewrop (PEM) ac rydym wedi gwneud y farn hon yn glir i Lywodraeth y DU.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 23.

**Ymateb:** Gwrthod

Ni allwn ddarparu diweddariadau rheolaidd manwl oherwydd sensitifrwydd y diwydiant a/neu'r effaith ar negodiadau byw. Gallwn barhau i ddarparu diweddariadau lefel uchel.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 24.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi nodi'n glir y byddwn yn ceisio cynnwys ymrwymiadau cadarn mewn cytundebau masnach i helpu i wella safonau lles anifeiliaid. Mae hyn yn dal yn wir ar gyfer yr adolygiad gweithredu a'r trafodaethau i ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig eraill i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'n blaenoriaeth i gynnal a gwella ein safonau a'n huchelgeisiau uchel ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid a bioddiogelwch yn holl negodiadau Cytundeb Masnach Rydd (FTA) Llywodraeth y DU. Mae'r DU a'r UE yn rhannu ymrwymiadau i wella safonau Lles Anifeiliaid. Rydym yn falch o'r safonau uchel sydd gennym yng Nghymru, gan gynnwys ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid, olrhain a diogelwch bwyd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 25.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu diweddariadau manwl ar negodiadau byw ond bydd yn rhoi sylwadau ar y darpariaethau fydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb terfynol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 26.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan gynnwys drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, y potensial i ddatblygu mecanwaith ar draws y DU i fonitro aliniad â'r UE ac ymwahanu oddi wrtho.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 27.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd yn aml â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan gynnwys drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE a'r IMG EFRA i drafod amrywiaeth o bynciau. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ar alinio ac ymwahanu, lle mae'n berthnasol i drafodaethau'r UE sydd ar y gweill. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid drwy'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach i drafod alinio ac ymwahanu a'i barn ar waith ailosod y berthynas â'r UE yn ehangach. Rydym hefyd yn ymgysylltu â chyrff penodol yn y diwydiant pan fydd angen trafodaethau penodol ar faterion.

Goblygiadau Ariannol: Dim

# Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

## Argymhelliad 28.

Ymateb: Derbyn

Nid yw Dull Llywodraeth Cymru o Ymdrin â Pholisi Masnach yn nodi profion ffurfiol “cysylltiedig â'r amgylchedd.” Yn hytrach, mae'n amlinellu cyfres o ddisgwyliadau polisi y dylai cytundebau masnach eu bodloni i gefnogi amcanion amgylcheddol a dyletswyddau cyfreithiol Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Y disgwyliad yw y bydd darpariaethau amgylcheddol yn rhan allweddol o unrhyw gytundeb masnach ac na ddylai fod unrhyw effaith ar ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau presennol yn ddomestig nac yn rhyngwladol na chwaith ein hatal rhag gwneud ymrwymiadau uchelgeisiol yn y dyfodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar yr amgylchedd, o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a sicrhau lefelau uchel o warchodaeth amgylcheddol.

Yn gyffredinol, mae'r TCA yn cyd-fynd â'r disgwyliadau hyn, gydag ymrwymiadau ar y cyd i beidio ag atchwelyd, lefelau uchel o ddiogelu'r amgylchedd a cheisio gwella ar y safonau hyn. Mae cwmpas amgylcheddol y TCA yn eang, gan gynnwys darpariaethau manwl yn ymwneud â gweithredu ar yr hinsawdd a gwarchod natur a bioamrywiaeth, sy'n flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â nifer o feysydd eraill sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 29.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn derbyn ac yn croesawu pwysigrwydd cydweithredu gwell yn y meysydd a nodwyd o dan y “common understanding”, gan gydnabod nad yw'r TCA yn disodli'r fframwaith cydweithredu a oedd yn bodoli ar draws aelodau'r UE cyn ymadael â'r UE. Fodd bynnag, mae'r TCA presennol yn darparu sawl llwybr ar gyfer cyfnewid barn, ar gyfer rhannu gwybodaeth am feysydd polisi amgylcheddol ac i nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin a phynciau a fyddai'n elwa o drafodaeth bellach. Er enghraifft, yn y Pwyllgor Arbenigol Masnach - Tegwch yn y Farchnad, mae'r DU a'r UE yn gallu trafod meysydd polisi craidd lle gallai trafodaeth bellach fod yn fuddiol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â swyddogion cyfatebol ar eitemau perthnasol ar yr agenda.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 30.

Ymateb: Derbyn

Er y gallai alinio agosach arwain at fanteision posibl, mae angen asesu'r rhain fesul achos yn dibynnu ar fanylion penodol o ran sut y gallai'r aliniad hwnnw edrych, er mwyn sicrhau y byddai unrhyw newidiadau'n cefnogi nodau polisi Cymru. Er mai nifer fach iawn o reoliadau amgylcheddol sydd o fewn cwmpas y "common understanding", fel darpariaethau'r Cynlluniau Masnachu Allyriadau (ETS), mae'r rhan fwyaf y tu allan i'r cwmpas. Mae gan yr UE a Llywodraeth Cymru uchelgeisiau uchel ar gyfer diogelu'r amgylchedd ac, yn bwysig iawn, mae'r TCA yn caniatáu i Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n briodol i'n hamgylchiadau domestig, gan gynnwys gwella'r lefelau presennol o warchodaeth. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod pa ddeddfwriaeth y gallai'r UE ei chyflwyno yn y dyfodol, ac nid oes modd iddi wybod hynny. Felly, gallai sefyllfa fodoli yn y dyfodol lle gallai'r UE gyflwyno deddfwriaeth sy'n mynd yn groes i rai o'n safonau a'n gwerthoedd amgylcheddol ni.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 31.

Ymateb: Gwrthod

Mae cysylltiad ETS yn bwnc i'w drafod yn y trafodaethau "Common Understanding" rhwng y DU a'r UE sydd ar y gweill, ac ni allwn roi sylwadau manwl ar y negodiadau byw sydd ar y gweill. Fodd bynnag, yr unig sectorau y gellir eu cynnwys mewn cytundeb cysylltu yw'r rhai sydd ar hyn o bryd yn rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau'r UE.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 32.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae cysylltiad ETS yn amodol ar negodi yn y trafodaethau Common Understanding" rhwng y DU a'r UE sydd ar y gweill. Mae manteision posibl i gysylltu sy'n deillio o fod yn rhan o farchnad fwy. Fodd bynnag, bydd ein barn ar gysylltiadau ETS yn cael ei llywio gan y negodiadau hynny, ac ni allwn roi sylwadau ar drafodaethau byw.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 33.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried goblygiadau amgylcheddol a hinsawdd cysylltu'r ETS ac eithriadau'r Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau (CBAM), ar ôl i negodiadau "Common Understanding" y DU a'r UE fynd rhagddynt. Byddwn yn rhoi'r safbwyntiau hyn ar ôl i'r trafodaethau ddod i ben.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 34.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn weithredol â'r portffolio ynni rhwng Cymru ac Iwerddon. Mae tîm Llywodraeth Cymru yn Iwerddon yn aelod gweithgar ac yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y DU ac Iwerddon, gan gefnogi ein swyddogion polisi ynni ar brosiectau gweithredol.

Rydym hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda swyddogion Llywodraeth Iwerddon yn yr adrannau Materion Tramor, Trafnidiaeth ac Ynni ar gyfleoedd ar y cyd ac mae hyn wedi sicrhau bod Datganiad ar y Cyd Iwerddon-Cymru 2030[3], a lofnodwyd gan y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2025, yn cynnwys thema allweddol o gydweithio ar ynni.

Rydym hefyd yn gweithio gyda datblygwyr y Môr Celtaidd ar brosiectau gweithredol i archwilio ffyrdd y gall porthladdoedd a chadwyn gyflenwi Cymru fanteisio i'r eithaf ar brosiectau ynni ar y môr yn y Môr Celtaidd. Mae'r tîm hefyd yn gweithio gydag Awdurdod Rheoleiddio Ardal Forol Iwerddon ac yn cydweithio â chymheiriaid yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn weithgar mewn trafodaethau archwiliadol gyda Llywodraeth y DU ar fynediad posibl y DU i farchnad drydan sengl yr UE fel rhan o'r Ddealltwriaeth Gyffredin rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 35.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro negodiadau sy'n mynd rhagddynt ond ni fydd yn gallu adrodd ar y rhain hyd nes y cyrhaeddir cytundeb terfynol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

[3] Datganiad ar y Cyd Iwerddon-Cymru 2030 [HTML] | LLYW.CYMRU

# Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Argymhelliad 36.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Er bod trafodaethau rhwng y DU a'r UE yn sensitif, ac nid ydynt yn rhywbeth y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu darparu gwybodaeth yn eu cylch heb ganiatâd y DU a'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y pwyllgor i dynnu sylw at drafodaethau a chofnodion cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol. Cyhoeddir cyfarfodydd pwyllgor y TCA ar-lein.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 37.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chyngor a'i chanllawiau yn rheolaidd a, gyda'r negodiadau'n mynd rhagddynt ar gyfer "common understanding", gallai hyn ddiwygio'r trefniadau masnachu presennol. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau pan fydd y trafodaethau hyn wedi dod i ben.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 38.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Gan fod yr adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i fod i gael ei gynnal yn 2026 a gyda thrafodaethau'n mynd rhagddynt ar gyfer y "common understanding", y gallai'r naill a'r llall ddiwygio'r trefniadau masnachu presennol, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau pan fydd y negodiadau ar gyfer y ddau wedi dod i ben.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 39.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU ar yr adolygiad sydd ar y gweill, gan gynnwys beth yw ei blaenoriaethau. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth y DU wedi amlinellu'n gyhoeddus ei safbwyntiau penodol ar gyfer trafodaethau sydd ar y gweill.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 40.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Fel y nodir yn argymhelliad 1, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu a diweddaru blaenoriaethau'r UE ac yn ystyried unrhyw effaith bosibl ar Gymru fel rhan o'r gwaith parhaus hwn. Er y byddwn yn rhoi gwybod i'r pwyllgor os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'n blaenoriaethau lefel uchel, fel ceisio Cytundeb SPS, ni fyddwn yn gallu rhoi gwybod i'r pwyllgorau am safbwyntiau negodi manwl yn ystod y cyfnod negodi.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 41.

Ymateb: Cytuno

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i Grŵp Rhyngweinidogol gael ei gynnal cyn y trafodaethau.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 42.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddiweddaru'r cylch gorchwyl.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 43.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill i ddiweddaru rhai o gytundebau'r pedair gwlad sydd ar waith ar hyn o bryd. Gall y trafodaethau hyn fod yn ffordd o archwilio cydweithrediad o amgylch perthynas y DU a'r Llywodraethau Datganoledig â'r UE.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 44.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae rôl Llywodraeth Cymru mewn mecanweithiau ymgynghori cynnar yn destun i'w drafod yn y negodiadau "Common Understanding" rhwng y DU a'r UE sydd ar y gweill,

ac ni allwn roi sylwadau ar negodiadau byw. Byddwn yn rhoi gwybod i'r pwyllgor am rôl o'r fath cyn gynted â phosibl.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 45.

Ymateb: Derbyn

Mae rheolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn berthnasol mewn sefyllfaoedd lle nad oes gan bartneriaid masnachu gytundeb masnach rydd ar raddfa lawn. Gan fod gan y DU a'r UE gytundeb masnach yn ei le, ar ffurf y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, caniateir triniaeth ffafriol ar nwyddau rhwng y DU a'r UE.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 46.

Ymateb: Derbyn

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu rhoi sylwadau ar gydymffurfio â'r hyn y gellid ei gynnwys yn y trefniadau terfynol sy'n rhan o'r "Common Understanding", gan nad yw'r rhain wedi cael eu negodi eto. Fodd bynnag, gallwn fod yn glir bod Llywodraeth Cymru yn cymryd ei rhwymedigaethau rhyngwladol o ddifrif ac y byddai'n codi hynny ar unwaith gyda Llywodraeth y DU pe bai'n credu y byddai trefniant sy'n cael ei negodi yn arwain at ddiffyg cydymffurfio. Ar ôl i sefyllfa derfynol ddeillio o'r negodiadau, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu nodi ei barn ar unrhyw sefyllfa y cytunwyd arni.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 47.

Ymateb: Gwrthod

Mae safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar weithredu deddfwriaeth ôl-UE wedi cael eu datgan droeon. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i beidio â deddfu fel arfer mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli heb ein cydsyniad, a byth heb ymgynghori. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro gweithrediad y Ddeddf ac adran 29 ond nid yw o'r farn bod angen asesiad penodol ar hyn o bryd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 48.

Ymateb: Derbyn

Mae'r mater hwn wedi cael ei drafod yn uniongyrchol â Llywodraeth y DU ac mae wedi cadarnhau nad oes cyllid ar gael a bod gan holl gyfarfodydd Grŵp Cynghori Domestig y DU (DAG y DU) opsiwn hybrid ar gyfer bod yn bresennol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 49.

Ymateb: Derbyn

Y broses safonol rydym yn ei dilyn pan fydd aelodau grwpiau fel DAG y DU yn cael eu recriwtio neu eu hadolygu yw defnyddio ein rhwydweithiau presennol, fel ein Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach, i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyn. Fodd bynnag, yn achos penodol adolygiad DAG 2024 nid oes gennym gofnod a ddilynwyd y broses hon ai peidio.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 50.

Ymateb: Derbyn

Nid oes cysylltiad ffurfiol rhwng y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach (TPAG) a Fforwm Cymdeithas Sifil TCA (CSF). Sefydlwyd y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â Pholisi Masnach, gyda'i gylch gwaith yn canolbwyntio fwyfwy ar Fasnach yr UE yn 2024. Mae aelodaeth TPAG a'r CSF yn eang, gan gynnwys cyrff busnes ac amrywiaeth o sefydliadau eraill. Er y gall rhai aelodau o'r TPAG hefyd fynychu'r CSF, nid oes ymdrech fwriadol i sicrhau bod y rhai sy'n mynychu'r CSF hefyd yn aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 51.

Ymateb: Derbyn

Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw monitro gwaith Grŵp Cynghori Domestig y DU (DAG), mae rhai aelodau o Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach (TPAG) Llywodraeth Cymru hefyd yn aelodau o Grŵp Cynghori Domestig y DU ac, o'r herwydd, gallwn glywed eu safbwyntiau'n uniongyrchol. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n weithredol ag aelodau eraill y DAG fel APBI, BSI, SMMT ac UKAS[4] i ddeall eu barn ar faterion allweddol a nodi cyfleoedd i gydweithio.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 52.

Ymateb: Derbyn

[4] APBI - Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, BSI - Sefydliad Safonau Prydeinig, SMMT - Cymdeithas Gwneuthurwyr a Masnachwyr Moduron, UKAS - Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig

Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan gynnwys drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, y potensial i ddatblygu mecanwaith ar draws y DU i fonitro aliniad â'r UE ac ymwahanu oddi wrtho.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 53.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo yn y meysydd sy'n cael eu negodi ar hyn o bryd.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 54.

Ymateb: Derbyn

Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch sut mae'n bwriadu bwrw ymlaen â deddfwriaeth i weithredu unrhyw gytundebau gyda'r UE yn y dyfodol, gan gynnwys ar y rôl y bydd angen i ddeddfwrfeydd datganoledig ei chwarae i weithredu cytundebau mewn meysydd datganoledig. Rydym wedi bod yn glir bod yn rhaid i unrhyw broses ddeddfwriaethol barchu'r setliad datganoli a'r prosesau presennol yn y llywodraethau datganoledig.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Argymhelliad 55.

Ymateb: Derbyn

Mae Fframweithiau Cyffredin yn fecanwaith pwysig ar gyfer trafod a chydweithredu rhwng y pedair llywodraeth mewn meysydd polisi a oedd yn arfer cael eu llywodraethu gan gyfraith yr UE. Maent yn darparu fforwm i rannu tystiolaeth ac archwilio effeithiau alinio ac ymwahanu rheoleiddiol, gan helpu llywodraethau i wneud penderfyniadau gwybodus ar alinio â'r UE. Mae pob llywodraeth yn cadw'r hawl i benderfynu ar alinio â'r UE o fewn ei chymhwysedd ei hun. Mae fframweithiau'n helpu i sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n dryloyw ac yn gallu cefnogi dulliau gweithredu cydgysylltiedig lle bo hynny'n briodol, gan barchu gallu pob llywodraeth i ymwahanu.

Goblygiadau Ariannol: Dim

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

30 Hydref 2025

Annwyl Rebecca,

**Cytundeb Cynhwysfawr rhwng y DU ac India o ran yr Economi a Masnach**

Nododd y Pwyllgor â diddordeb fod y DU ac India wedi llofnodi Cytundeb Cynhwysfawr o ran yr Economi a Masnach ('y Cytundeb') ym mis Gorffennaf 2025.

Rydym yn croesawu'r dystiolaeth a ddarparwyd gennych i'r Pwyllgor yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 17 Gorffennaf, pan wnaethom drafod y Cytundeb a pherthynas fasnachu Cymru ag India, gan gynnwys eich ymrwymiad i gyhoeddi dogfen safbwyntiau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r ddogfen hon at y Pwyllgor. Os nad yw'r ddogfen ar gael eto, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar y gwaith o lunio'r ddogfen a'r dyddiad cyhoeddi disgwyliedig.

Yng ngoleuni datblygiadau masnach fyd-eang sy'n esblygu'n gyflym, byddai hefyd o gymorth i'r Pwyllgor pe gallech rannu eich canfyddiadau cynnar ar yr agweddau isod ar y Cytundeb a allai fod y tu allan i gwmpas y ddogfen safbwyntiau.

- Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y gallai'r Cytundeb fod werth £80 miliwn i economi Cymru, ac y gallai roi mynediad i ddefnyddwyr Cymru at nwyddau rhatach. Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, beth yw prif effeithiau'r Cytundeb ac a ydynt yn cyd-fynd â chanfyddiadau Llywodraeth y DU?
- A fydd yr asesiad yn manylu ar i ba raddau y mae'r Cytundeb yn gydnaws ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn ei phapur polisi masnach yn 2024?

- Beth yw goblygiadau'r Cytundeb i ddiwydiant dur Cymru?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 21 Tachwedd.

Yn gywir,



**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg